Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20

| | |
|---|---|
| **Enw'r Sefydliad sy'n ymgeisio:** | Prifysgol Abertawe |
| **Cyfeiriad yr ymgeisydd:** | Yr Abaty, Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP |

| | **Prif gyswllt** | **Cyswllt amgen** |
|---|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Rob Bowen | Yr Athro Martin Stringer |
| **Teitl Swydd:** | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad | Dirprwy Is Ganghellor |
| **Rhif ffôn:** | 01792 606235 | 01792 602149 |
| **Cyfeiriad e-bost:** | r.j.bowen@swansea.ac.uk | k.e.prescott@swansea.ac.uk |

# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019-20

# Canolbwynt a Chynnwys

## Crynodeb gweithredol

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad Prifysgol Abertawe yn fynegiant o'n hymrwymiad i ddarparu amgylchedd astudio cynaliadwy sy'n cefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a phob myfyriwr i gyflawni o fewn addysg uwch. Mae'r **agwedd gynhwysol** yn unol â datganiad polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ehangu mynediad... "Dylai addysg uwch fod ar gael i bob un sydd â'r potensial i elwa waeth beth fo'u hoedran, rhyw, modd a lefel astudio a'u gwlad wreiddiol a'u cefndir..."

Mae ffocws a chynnwys y cynllun yn seiliedig ar weithgareddau, gwasanaethau a mentrau fydd yn helpu i gefnogi pob myfyriwr yn cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael **Mynediad, i Gynyddu** ac i gael eu **Cadw** ac i gael **Deilliannau** cadarnhaol. [1] Mae'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn wedi cael eu dewis yn seiliedig ar grwpiau blaenoriaeth ehangu mynediad CCAUC, o adolygiad o'n data proffil myfyrwyr ac yn unol â Chynllun Strategol Cydraddoldeb y Brifysgol. Yn nodweddiadol bydd y myfyrwyr hyn yn rhai o gefndiroedd difreintiedig, gyda nodweddion gwarchodedig a/neu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein poblogaeth o fyfyrwyr.

Mae cynnwys y cynllun wedi'i seilio'n gadarn ar fesurau Llywodraeth Cymru/CCAUC ynghylch Cyfle Cyfartal a Hyrwyddo Addysgu Uwch (AU) a gellir eu crynhoi drwy'r themâu canlynol:

- Denu myfyrwyr i gymryd rhan mewn AU (hefyd drwy eu helpu i ddeall gwerth AU) yn enwedig y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol / o gefndiroedd difreintiedig.
- Gweithgareddau a gwasanaethau cefnogi i helpu myfyrwyr i gynyddu, i gwblhau, i gyflawni ac i aros o fewn addysg uwch.
- Gweithgareddau i wella profiad y myfyriwr.
- Darparu gwybodaeth effeithiol i helpu myfyrwyr i ddeall sut i gael mynediad i addysg uwch a chefnogaeth yn cynnwys gwybod faint fydd cost eu cwrs.
- Darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd da.
- Cefnogaeth i fynd ymlaen at astudiaeth bellach/cyflogaeth.
- Ymgysylltiad y brifysgol a chydweithio rhanbarthol.
- Gwella ansawdd dysgu, addysgu a phrofiad y myfyriwr.
- Cryfhau cyflogadwyedd Graddedigion o Gymru.
- Hyrwyddo AU Gymreig yn cynnwys hyrwyddo'n rhyngwladol.
- Darparu AU gynaliadwy.

---

[1] Diffiniadau ehangach:

Mynediad - Cael mynediad i Addysg Uwch
Cynnydd - Symud yn llwyddiannus o un flwyddyn i'r nesaf ar gwrs
Cadw - Aros o fewn Addysg uwch
Deilliannau – Ennill cymhwyster ar y diwedd a chyflogaeth neu astudio pellach

Wrth fynd i'r afael â Chyfle Cyfartal a Hyrwyddo mesurau AU, mae'r Brifysgol wedi clustnodi 17.6% o'r incwm y bydd yn ei gynhyrchu yn 2019/20 mewn ffioedd myfyrwyr, sef £20.3 miliwn (amcangyfrif o £18.5m yn y cynllun 2018-19). Bydd y buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a swyddogaethau sy'n denu, yn cefnogi, yn cadw, yn datblygu ac yn helpu myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (a phob myfyriwr) i lwyddo mewn addysg uwch. Yn ogystal, bydd y buddsoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo a gwella effaith addysg uwch Gymreig ar lefel leol, rhanbarthol a rhyngwladol.

## Llais y Myfyriwr

**Ymgysylltu â chorff myfyrwyr Prifysgol Abertawe wrth ddatblygu, asesu a chwblhau'r Cynllun ffioedd a mynediad.**
Mae Prifysgol Abertawe ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth agos i sicrhau profiad o safon uchel i'r myfyriwr, gyda llais y myfyriwr yn parhau i fod yn ganolbwynt strategol mewn materion yn ymwneud â'r Brifysgol drwy gynrychiolaeth, cyfranogaeth ac ymgysylltu.

Mae egwyddorion ymgysylltu â myfyrwyr a phartneriaeth yn rhan greiddiol o holl weithgareddau a phrosesau'r Brifysgol. Mae Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr y Myfyrwyr yn aelodau o gyrff llywodraethu uwch y Brifysgol sy'n siapio datblygiad strategol ac fel rhan o ddeialog barhaus mae'r Undeb wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd ac mewn fforymau trafod gydag uwch reolwyr academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae deilliannau'r byrddau a'r pwyllgorau hyn yn dylanwadu ar wahanol agweddau ar fusnes y Brifysgol sy'n effeithio ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad a hefyd weithrediad y cynllun ei hun drwy waith ein hacademïau addysgu, cyflogadwyedd ac ehangu mynediad.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 18-19, cynhaliwyd cyfarfod gydag Undeb y Myfyrwyr. Roedd hwn yn cynnwys trafod y gofynion ar gyfer y cynllun ac adolygu datblygiad templed cydymffurfio a gwerthuso'r Cynllun Ffioedd a Mynediad a gafodd ei groesawu gan yr Undeb. Mae Undeb y Myfyrwyr yn bartneriaid ym mhroses datblygu'r cynllun a bydd yn adolygu'r drafft cyntaf a'r adborth dilynol gan CCAUC. Ceir ymgynghoriad drwy e-bost wrth lunio drafft terfynol y cynllun. Bydd swyddogion yr Undeb hefyd yn chwarae rôl yn cefnogi'r cynllun pan gaiff ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli/Cyngor i'w gymeradwyo.

Mae yna Weithgor Cynllun Ffioedd a Mynediad, dan gadeiryddiaeth un o'n Dirprwy Is-gangellorion, gyda chyfranogwyr o bob rhan o'r Brifysgol, ac mae Swyddog Addysg a Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelodau o'r pwyllgor hwn.

**Cyfraniad llais y myfyrwyr, a gweithio mewn partneriaeth, i lywodraethu ac ansawdd.**
Mae gan Brifysgol Abertawe ddull ymrwymedig, tymor hir o weithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr gyda golwg ar sicrwydd a gwella ansawdd academaidd a llywodraethu'r Brifysgol. Cyflwynwyd tîm penodol Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltiad Myfyrwyr yn 2015 ac mae wedi parhau i wella'r gwaith partneriaeth rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a chodi lefelau ymgysylltiad ac adborth myfyrwyr.

**Llywodraethu**

Mae'r Cyngor a'r Senedd, corff penderfynu academaidd uwch y Brifysgol, ill dau yn cynnwys aelodau sy'n fyfyrwyr. Mae myfyrwyr hefyd yn aelodau o is-bwyllgorau'r Senedd, sy'n ymdrin â meysydd academaidd gan gynnwys y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, Safonau Academaidd ac Ansawdd, Bwrdd Strategaeth y Gymraeg, a'r Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd. Mae proses adolygu a chymeradwyo rhaglenni ar Fwrdd Rheoli Rhaglenni a Phwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr. Ar y lefel hon, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr fel rheol yn Swyddogion Llawn Amser yn Undeb y Myfyrwyr. Fodd bynnag, gall hyn gynnwys rhai cynrychiolwyr Coleg a swyddogion rhan-amser Undeb y Myfyrwyr.

Mae gan system Cynrychiolwyr y Myfyrwyr dros 250 o gynrychiolwyr ar lefelau Coleg a phwnc sy'n eistedd ar Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Coleg, Byrddau Astudio a Fforymau Staff-Myfyrwyr y Coleg. Mae adborth gan gynrychiolwyr myfyrwyr yn ffurfio rhan bwysig o agendâu byrddau astudiaethau a fforymau myfyrwyr y coleg. Mae fforwm penodol wedi'i sefydlu ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae eu hadborth yn cael ei dderbyn gan Fwrdd Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol a hefyd Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Ansawdd**

Mae myfyrwyr yn cael eu cynrychioli yn y prosesau adolygu ansawdd drwy aelodaeth ar banelau Adolygiadau Cyfnodol ac Adolygiadau Gwella Profiad Myfyrwyr (sydd fel arfer yn cael eu hysgogi gan adborth myfyrwyr). Gwahoddir myfyrwyr hefyd i'r panelau hyn i roi adborth ar eu profiad academaidd.

Mae adborth myfyrwyr drwy eu hatebion i arolygon yn ffurfio rhan fawr o'r prosesau adolygu ansawdd ac mae cyfradd uchel yr ymateb yn Abertawe yn ein galluogi i gael data cadarn iawn ar fodlonrwydd myfyrwyr ar eu rhaglenni. Mae adborth myfyrwyr ar lefel modiwl sy'n cael ei gasglu ddwywaith y flwyddyn hefyd yn cyfrannu i adolygiadau datblygiad proffesiynol y staff.

Cymharol ychydig o ddarpariaeth sydd gan y Brifysgol sy'n cael ei darparu gan bartneriaid. Cynrychiolir y myfyrwyr ar Fyrddau Astudiaethau yn y sefydliadau hyn sy'n bartneriaid a byddant yn cyfarfod yn rheolaidd gydag aelodau o gyfadran y Brifysgol i roi adborth i'r sefydliad. Caiff llais y myfyrwyr ac adborth myfyrwyr hefyd ei gasglu drwy arolygon Llais y Dysgwr o fewn sefydliadau ein partneriaid sy'n adrodd yn ôl i'r tiwtor cyswllt ar gyfer pob coleg ac arolygon unigol i ymgeiswyr am ddoethuriaeth.

Rydym yn cynnwys myfyrwyr pan fyddwn yn sefydlu darpariaeth newydd gyda sefydliadau sy'n bartneriaid ac yn cyfarfod â hwy fel rhan o'n proses cymeradwyo rhaglenni. Bydd Swyddogion Llawn Amser Undeb y Myfyrwyr yn cyfarfod yn rheolaidd gydag Uwch dîm rheoli'r Brifysgol yn y cyfarfod SMT-FTO a hefyd yn cymryd rhan ym Mhwyllgor Ymgysylltiad Myfyrwyr a Phartneriaeth. Mae myfyrwyr hefyd yn cymryd rhan mewn prosiectau mawr a mentrau newid yn y Brifysgol megis Grŵp Profiad Campws y Bae, Gweithgor Cynllun Teithio a grwpiau Strategaeth Chwaraeon. Mae Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr hefyd yn aelod o'r Tîm Rheoli Gwasanaethau Proffesiynol.

**Adlewyrchu egwyddorion datganiad Wise Cymru ar bartneriaeth ar gyfer addysg uwch a chwalu rhwystrau i gyfleoedd i fyfyrwyr a gweithredu cymdeithasol ieuenctid.**
Mae ymgysylltiad myfyrwyr yn Abertawe a'u rhan yn natblygiad y cynllun ffioedd a mynediad yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn adroddiad Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Prifysgol y DU, *'Breaking Down the Barriers to Student Opportunities and Youth Social Action'.* Fel y cyfeirir yn ein Siarter Myfyrwyr mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymedig i Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Addysg Uwch ac mae'n gweithio'n agos gyda myfyrwyr i sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cynnal a bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn cael eu diffinio'n glir. Mae cyflwyno tîm Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltiad Myfyrwyr yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i wneud ymgysylltiad myfyrwyr yn rhan annatod o'i holl brosesau.

**Sut y caiff lefelau ffioedd, gan gynnwys lefelau cyfansymiol ffioedd, eu cyfathrebu i fyfyrwyr.**

Bydd ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanwl am lefelau ffioedd yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fel y gall myfyrwyr weld yn glir y cyfanswm neu gost lawn y radd y maent wedi ei dewis. Rydym hefyd yn ymrwymedig i gyrraedd a glynu at y safonau ansawdd o fewn canllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch.

Bydd y wefan hefyd yn cynnwys manylion y gefnogaeth gysylltiedig fydd ar gael i fyfyrwyr cyn gynted ag y bydd hyn wedi ei gytuno gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (neu wybodaeth amodol os yn briodol). Bydd y wefan yn cynnwys:

1. Gwybodaeth glir am lefelau ffioedd ar gyfer pob rhaglen a faint y dylai myfyrwyr ddisgwyl ei dalu am hyd eu rhaglen (hefyd wedi ei gynnwys yn ein Setiau Gwybodaeth Allweddol ar lefel rhaglen - mae rhagor o wybodaeth ar gael fan hyn);
2. Gwybodaeth glir am gostau ychwanegol nodweddiadol, fydd efallai'n cael eu hachosi yn ystod cyrsiau neilltuol, megis yr angen i brynu cotiau labordy, offer personol neu gostau disgwyliedig teithiau maes ac ati. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.
3. Dolennau cyswllt i ffynonellau gwybodaeth a chymorth eraill, gan gynnwys gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru sy'n cynnwys cyfrifianellau sy'n galluogi myfyrwyr i weld yn gyflym beth yw costau astudio a pha gymorth sydd ar gael iddynt;
4. Gwybodaeth sy'n ymdrin yn benodol â myfyrwyr sy'n: gohirio mynediad; astudio dramor; astudio'n rhan-amser; ailsefyll y cyfan neu ran o'r flwyddyn; neu'n astudio ar lefel heb fod yn radd; a
5. Gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Abertawe o Gymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a lleoedd eraill yn yr UE.

Bydd sgyrsiau ar gyllid myfyrwyr yn Niwrnodiau Agored y Brifysgol yn rhoi gwybodaeth glir i rieni a myfyrwyr am lefelau ffioedd a'r pecynnau cyllido statudol a'r bwrsariaethau sydd ar gael gan y Brifysgol. Bydd y tîm derbyniadau a recriwtio myfyrwyr yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i ddarpar fyfyrwyr a'u rhieni drwy eu gwaith mewn Ysgolion a ffeiriau recriwtio a chynulliadau Addysg Uwch. Rydym yn cefnogi Partneriaeth Ymgyrraedd yn

Ehangach De-orllewin Cymru, sy'n gweithio i ddod â'r wybodaeth hon o fewn cyrraedd myfyrwyr sydd ar hyn o bryd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

Adeg ysgrifennu'r cynllun hwn (Mawrth 2018), lefel uchaf y ffi ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser a TAR (SAC) ar gyfer 2019-20 yw £9,000 y flwyddyn. Pennir lefel uchaf y ffi gan Lywodraeth Cymru a gall fod yn agored i newid mewn blynyddoedd dilynol (e.e. cynnydd oherwydd chwyddiant). Os bydd hyn yn digwydd byddwn yn ysgrifennu at fyfyrwyr cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol bosibl i'w hysbysu am unrhyw newidiadau i ffioedd all effeithio arnynt. Mae cael cymeradwyo’r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn caniatáu i'r Brifysgol osod ffioedd ar y lefel uchaf am ffioedd a nodwyd uchod.

**Lefelau Ffioedd Gwahaniaethol**
Mae'r Brifysgol yn gosod gwahanol lefelau ffioedd ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaeth. Fel y nodwyd uchod, bydd ein gwefan ar gyfer cyrsiau penodol yn darparu'r holl wybodaeth i fyfyrwyr y bydd ei hangen arnynt cyn gwneud cais, yn cynnwys y ffioedd. Yn ogystal, fel sy'n cael ei nodi yn Atodiad Aii, tablau C a D, byd y Brifysgol yn codi'r ffioedd canlynol ar ei fyfyrwyr israddedig llawn amser o'r DU/UE.

- Mae'r ffioedd ar gyfer gradd israddedig llawn amser neu gwrs TAR yn £9,000 y flwyddyn.
- Fodd bynnag, os yw'r radd yn cynnwys blwyddyn dramor neu flwyddyn mewn Diwydiant, yna bydd y ffi sy'n daladwy am y flwyddyn honno ddim ond yn £1,350 am flwyddyn dramor neu £1,800 am y flwyddyn mewn diwydiant.
- Mae gan y Brifysgol hefyd nifer o raglenni gradd sylfaen sy'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â Cholegau Addysg Bellach, ac mae'r ffioedd am y rhain yn £7,500 y flwyddyn.

**Cyfanswm cost ffioedd dysgu ar draws cyfnod y cyrsiau (ffioedd cyfanredol)**
Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar ein tudalennau cyrsiau mae'n bosibl i fyfyrwyr gyfrifo cyfanswm y ffioedd dysgu, neu'r ffioedd cyfanredol, y byddant yn eu talu am gyfnod eu dewis o radd. Dyma rai enghreifftiau nodweddiadol:

| Math o radd nodweddiadol (myfyriwr israddedig llawn amser o'r DU/UE) | Cyfrifo | Cyfanswm y ffïoedd dysgu ar draws hyd y cwrs* |
|---|---|---|
| Gradd israddedig 3 blynedd llawn amser/TAR | 3 x £9,000 y flwyddyn | £27,000 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn dramor | 3 x £9,000 plws £1350 ar gyfer y flwyddyn dramor | £28,350 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn mewn diwydiant | 3 x £9,000 plws £1800 ar gyfer y flwyddyn mewn diwydiant | £28,800 |
| Gradd 4 blynedd | 4 x £9,000 | £36,000 |
| Gradd Sylfaen | 2 x £7,500 y flwyddyn | £15,000 |

*heb gynnwys costau ychwanegol sy'n dod yn sgil astudio rhai cyrsiau penodol (gweler isod)

Waeth beth fo lefel y ffi, byddwn yn ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr fydd yn gwneud cais am fynediad ar gyfer 2019-20 i'w hysbysu am y ffioedd, y trefniadau ar gyfer talu ffioedd a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt am lefelau ffioedd ar gyfer pob blwyddyn o'u rhaglen astudio (er mwyn cyfrif cyfanswm y ffi ar gyfer y rhaglen gyfan). Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr sy'n gwneud cais i Brifysgol Abertawe am fynediad yn 2019-20, a ohiriwyd o'r flwyddyn flaenorol, i'w hysbysu am y ffioedd.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr cyfredol, y gallai newidiadau i ffioedd effeithio arnynt, os byddant yn dewis symud i gwrs arall neu'n gorfod ailsefyll, i roi'r wybodaeth briodol iddynt.

Yn ychwanegol at gostau Ffioedd Addysgu a chostau byw, efallai y bydd rhai rhaglenni (neu fodiwlau) yn denu **costau gorfodol neu ddewisol eraill** sy'n angenrheidiol i fyfyrwyr allu cymryd rhan yn llawn yn y rhaglen o'u dewis a'i chwblhau. Bydd angen i fyfyrwyr drefnu i dalu'r costau hyn ar wahân, gan nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Ffi Addysgu gyffredinol a godir. Gall costau o'r fath gynnwys teithiau gwaith maes, costau teithio i leoliadau gwaith neu astudio, costau labordy ac offer neu wiriadau CRB/DBS penodol i'r rhaglen. Bydd y Brifysgol a'i phartneriaid breiniol yn parhau i ymdrechu i leihau nifer a maint costau ychwanegol ond caiff manylion unrhyw gostau ychwanegol eu cyhoeddi ar dudalennau gwe'r rhaglenni unigol a byddant wedi eu cynnwys yn y wybodaeth am y rhaglenni a anfonir i ymgeiswyr pan fydd cynnig yn cael eu hastudio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma <http://www.swansea.ac.uk/undergraduate/fees-and-funding/tuition-fees/additionalcosts/>.

Bydd tîm Arian@BywydCampws y Brifysgol hefyd yn rhoi gwybodaeth a chyngor ariannol i fyfyrwyr presennol drwy sesiynau cyngor 'galw heibio', drwy borth arbennig y Brifysgol a thros y ffôn a thrwy'r e-bost. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael gan Arian@BywydCampws yn cael eu hysbysebu'n eang drwy sgyrsiau i fyfyrwyr, presenoldeb mewn Diwrnodiau Agored, Ffeiriau Croesawu, drwy e-byst, y cyfryngau cymdeithasol a hysbysiadau ar y Bwrdd Bwletinau, ac mewn digwyddiadau amrywiol a phosteri o gwmpas y campws.

Mae yna hefyd Swyddog Cyfathrebu Myfyrwyr llawn amser i arwain a chynorthwyo i gyfathrebu'n effeithiol â myfyrwyr.

## Y Rhesymeg dros Ddull ac Amcanion Strategol y Cynllun Ffioedd a Mynediad

Mae Prifysgol Abertawe yn mabwysiadu dull cynhwysol at ddarparu addysg uwch yn unol â datganiad polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag ehangu mynediad..."*Dylai Addysg Uwch fod ar gael i bawb sydd â'r posibilrwydd o elwa, waeth beth fo'u hoed, rhyw, eu dull astudio na'u lefel, eu gwlad enedigol na'u cefndir ...*" Mae ein dull yn cael ei gefnogi ymhellach gan adroddiad 2017 '*What Works? Student Retention and Success*', sy'n argymell, *"Other institutions seeking to develop excellence in learning and teaching and improve the student experience and outcomes adopt a whole institution approach"*[2]

[2] 3 Cefnogi mynediad i fyfyrwyr: Strategies for institutional change. What Works? Student Retention & Success programme. Ebrill 2017, *Paul Hamlyn Foundation*

Mae ein rhesymeg wedi ei seilio hefyd ar y canlynol:

i) Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn sefydliad ehangu mynediad llwyddiannus iawn am dros 30 mlynedd ac mae eisoes wedi cyrraedd lefel uchel o berfformiad o ran denu myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
ii) O ran recriwtio bwriadol yng Nghymru, mae'r gystadleuaeth gan Sefydliadau AU yn Lloegr ar gyfer myfyrwyr Mynediad Ehangach wedi bod yn gryfach na'r disgwyl, ac yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol.
iii) Mae ein lefelau o gadw myfyrwyr hefyd wedi bod yn gyson uchel (95.3% yn 2015-16) yn erbyn targed meincnod o 93.8%[3].
iv) Mae'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd gennym i gefnogi myfyrwyr drwy recriwtio, cadw a chyrhaeddiad wedi eu dylunio i fod yn hygyrch i grwpiau penodol o fyfyrwyr (e.e. grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol).

Mae buddsoddiad Prifysgol Abertawe mewn Hybu AU hefyd yn cyd-fynd â datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar addysg uwch mewn perthynas â chyflogadwyedd, sicrhau "*profiad amrywiol a gwahanol i'r myfyriw*r" a gwella ansawdd.
**Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol wedi ei sefydlu ar lefel strategol ar draws y sefydliad**, yn gyntaf drwy Grŵp Datblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad dan arweiniad Dirprwy Is-ganghellor, gyda chynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr Ymgyrraedd yn Ehangach. Yn ail, mae'r targedau a'r ddarpariaeth allweddol hefyd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, y Ddogfen Cynllunio ac Ymgysylltiad Strategol ac yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol y Brifysgol. Yn ogystal, mae cynlluniau strategol eraill megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Safonau'r Gymraeg a'n mentrau newid strategol yn hyrwyddo'r nodau a'r amcanion cyffredin o greu amgylchedd astudio cynhwysol. Mae Cynllun Strategol y Brifysgol yn eistedd uwchben yr holl gynlluniau strategol eraill ac yn amlinellu'r ymrwymiad i wella profiad y myfyriwr ac ehangu cyfranogiad.

**Cynllun Strategol y Brifysgol 2020**

Mae'r Brifysgol yn ddiweddar wedi cyhoeddi ei Chynllun Strategol newydd i fynd â'r Brifysgol ymlaen i'w chanmlwyddiant yn 2020. Cafodd bwriad strategol y cynllun ynghylch ehangu mynediad a chyfranogiad ei hysbysu gan y Cynllun Ffioedd a Mynediad:

**Gweledigaeth:**

> *"Gyda'n gilydd, byddwn yn trawsffurfio bywydau a dyfodol pobl drwy ddarparu amgylchedd academaidd rhagorol gyda chydbwysedd o ragoriaeth rhwng addysgu ac ymchwil o safon fyd-eang, ac yn cael effaith drwy gydweithrediad rhanbarthol a byd-eang llwyddiannus."*

Mae ymrwymiadau drafft canlynol y canmlwyddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â bwriad strategol darpariaeth y Cynllun Ffioedd a Mynediad:

[3] Tabl T3a HESA UKPI 2015-16 - myfyrwyr israddedig, blwyddyn gyntaf (gradd gyntaf) yn 2014-15 sy'n byw yn y DU, nad ydynt yn parhau yn dilyn y flwyddyn mynediad

- *Byddwn yn cynyddu cyfranogaeth myfyrwyr o **grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol,** ac yn darparu c**efnogaeth o'r ansawdd angenrheidiol i**'w galluogi i lwyddo.*
- *Byddwn yn darparu **amgylchedd diogel, cynhwysol a chefnogol** sy'n cadarnhau ein hymrwymiad i **wella amrywiaeth** ac sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial.*
- *Byddwn yn cefnogi ein myfyrwyr i sicrhau'r **deilliannau uchaf yn bersonol, yn academaidd ac o ran cyflogaeth**.*
- *Byddwn yn creu **amgylchedd dysgu sy'n cefnogi ac yn cyfoethogi** ar gyfer ein holl fyfyrwyr.*
- *Byddwn yn parchu ac yn gwerthfawrogi ein **myfyrwyr fel partneriaid.***
- *Byddwn yn darparu amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol ac yn **gweithio i gyfoethogi diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.***
- *Byddwn yn creu ac yn gwella **partneriaethau lleol a byd-eang** sy'n dod â manteision i'n myfyrwyr, i'r staff ac i'r economi, y gymdeithas a'r gymuned ehangach.*
- *Byddwn yn cyfrannu i **yrru twf economaidd,** cynhyrchiant a ffyniant yn y rhanbarth, yng Nghymru ac yn y DU.*

**Dull Thematig o Ehangu Mynediad/Cyfranogiad**

Mae'r Brifysgol yn gweithio'n barhaus ar ymyriadau thematig sy'n ffocysu ar feysydd **Mynediad, Cadw, Dilyniant a Deilliannau.** Y rhesymeg dros weithio'n thematig yw rhoi gwell aliniad strategol i amcanion allweddol y brifysgol. Bydd y gwaith gyda phob Coleg/Ysgol academaidd yn adlewyrchu ei sefyllfa bresennol mewn perthynas â phob thema gan gymryd amrywiaeth y myfyrwyr i ystyriaeth ar gyfer meysydd pwnc a rhaglenni gwahanol. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod blaenoriaethau Colegau/Ysgolion yn amrywio yn nhermau'r pedair thema; felly, i un Coleg, efallai y bydd ehangu mynediad yn broblem ond i un arall, efallai y bydd y deilliannau gradd yn amrywio i grwpiau gwahanol o fyfyrwyr. Mae'r pedair thema wedi eu rhestru isod:

- Mae **Mynediad** yn ymwneud â chodi dyheadau unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli sydd â'r potensial i elwa oddi wrth astudiaeth Addysg Uwch.

- Mae **Dilyniant** yn canolbwyntio ar gefnogi ac arfogi myfyrwyr â'r wybodaeth a'r sgiliau i symud ymlaen drwy eu cyrsiau.

- Mae **Cadw** yn ymwneud â chefnogi myfyrwyr i barhau a chwblhau eu hastudiaethau ac mae'n golygu ymyrryd mor gynnar â phosibl pan fydd myfyriwr yn ymddangos mewn perygl a sicrhau ei fod yn cael cefnogaeth effeithiol mewn pryd.

- Mae a wnelo **Deilliannau** â darparu'r sgaffaldiau i sicrhau bod y myfyrwyr yn ennill y radd orau bosibl iddynt ac yn symud ymlaen yn effeithiol i gyflogaeth neu i astudiaeth bellach, waeth beth fo'u hamgylchiadau a/neu eu nodweddion.

**Perfformiad y Cynllun Ffioedd Blaenorol**

Wrth edrych yn ôl ar gynnwys, ffocws a pherfformiad cynlluniau ffioedd blaenorol, cydnabuwyd bod ein lefel o gefnogaeth i fyfyrwyr o safon uchel. Oherwydd ein dull cynhwysol, rydym eisoes yn rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr o amrywiaeth eang o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys cefnogaeth ariannol, sgiliau astudio academaidd ac yn awr gyda ffocws cynyddol ar gefnogaeth lles i gefnogi datrys unrhyw rwystrau neu broblemau yn gynnar i fyfyrwyr.

O ran perfformiad targedau metrig yn y cynlluniau ffioedd blaenorol, mae'r Brifysgol yn fodlon ar y canlyniadau a sicrhawyd a dadleuwn fod hyn a data o'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn arddangos effeithiolrwydd ein dull a'n mentrau. Yn y **Datganiad Monitro Blynyddol** diweddaraf **(2015-16)** wrth adrodd am berfformiad y Cynllun Ffioedd 2015-16, cyrhaeddodd y Brifysgol 10 allan o 12 targed metrig, gan ddod yn agos at gyrraedd y ddau arall:

**Cynyddu Cyfranogiad -** Gwnaeth y Brifysgol yn well na'r targed am ganran y myfyrwyr o ardaloedd ehangu cyfranogiad (20.8%) neu ardaloedd cyfranogiad isel (32%) yn 2015-16/ Serch hynny, mae data mwy diweddar yn dangos y bydd cynnal y canrannau hyn yn fwy heriol oherwydd nifer o ffactorau - ein tyfiant strategol mewn niferoedd myfyrwyr (gan wneud y ganran darged yn anoddach i'r Brifysgol ei chyflawni), cynnydd mewn cystadleuaeth am yr un myfyrwyr o Sefydliadau Addysg Uwch eraill yng Nghymru a Lloegr a'r gostyngiad yn y rhai rhwng 18-24 yn y ddemograffeg yng Nghymru. Bydd gwaith y Bartneriaeth Estyn yn Ehangach, Rhaglen Allgymorth ein Colegau a'n hymgysylltiadau hyrwyddo mewn Ysgolion mewn ardaloedd cyfranogiad isel yn allweddol wrth sicrhau bod y canrannau hyn yn cael eu cynnal er gwaethaf yr amodau heriol hyn.

**Cadw -** Dim ond 4.6% o fyfyrwyr oedd ddim mewn addysg uwch bellach yn dilyn eu blwyddyn mynediad o gymharu â tharged o 5%. Mae'r Brifysgol yn gyson yn cyflawni'n uwch na lefelau cadw cyfartalog gan arwyddo bod y gefnogaeth i fyfyrwyr a chefnogaeth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr yn effeithiol. Mae tystiolaeth bellach o hyn i'w gweld ym **metrigau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu** sy'n dangos bod y Brifysgol, dros y tair blynedd diwethaf, yn perfformio yn well na'i tharged meincnod ac yn sylweddol uwch ar gyfer myfyrwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y MALIC, myfyrwyr DLlE, myfyrwyr anabl a myfyrwyr cyfrwng Cymraeg (5 - 40 credyd).

**Dosbarthiadau Gradd -** Mae'r bwlch mewn cyflawniad gradd (Anrhydedd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) rhwng myfyrwyr o ardaloedd ehangu mynediad (76.8%) a phob myfyriwr (78%) wedi lleihau'n sylweddol yn 2015-16 a bellach dim ond 1.2% yw'r gwahaniaeth. Yn 2013-14 roedd y bwlch yn 11%/ Mae gwell ansawdd addysgu ac asesu, cefnogaeth academaidd a lles i fyfyrwyr yn ogystal â chyfleoedd sy'n cael eu darparu gan y Ganolfan Llwyddiant Academaidd wedi helpu i leihau'r bwlch yma.

**Cyfrwng Cymraeg -** Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud o leiaf 5 credyd neu o leiaf 40 credyd wedi cyrraedd eu targedau yn 2015-16. Fodd bynnag, mae'r targedau hyn yn parhau i fod yn her i'r Brifysgol gynyddu'r niferoedd hyn yn sylweddol yn unol â disgwyliadau cenedlaethol. Mae'r heriau i ehangu darpariaeth i ystod ehangach o bynciau yn rhannol oherwydd anawsterau yn recriwtio darlithwyr cyfrwng Cymraeg ac yna'r

oedi yn effaith hyn ar ystadegau'r dyfodol; adnabod galw addas a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Abertawe ymysg siaradwyr Cymraeg.

Yn nhermau strategaeth y Brifysgol i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol, mae hynny'n ddibynnol iawn ar weithio mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau gyda'r Coleg ynghylch y dull y dylai'r Brifysgol ei gymryd a pha ddarpariaeth bellach allai gael ei datblygu yn y dyfodol (e.e. Seicoleg ac Addysg). Fodd bynnag, prif ffocws y Brifysgol yw amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd i ddarpar fyfyrwyr ac ehangu'r nifer o gredydau sydd ar gael o fewn bob pwnc.

Yn ogystal â hyn, mae'r Brifysgol hefyd yn ffocysu ar sicrhau fod ganddi strwythurau a systemau perthnasol yn eu lle i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Academi Hywel Teifi'r Brifysgol yn gweithio ar draws y Brifysgol i sicrhau bod gan fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yr un cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth academaidd a myfyrwyr, er enghraifft fod bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg ac yn gofyn am fentor academaidd sy'n siarad Cymraeg yn cael un. Bydd llwyddo i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn yn digwydd drwy amrywiaeth o weithgareddau megis cynnal Dyddiau Blasu Cymraeg a Dyddiau Bagloriaeth Cymru; sicrhau rhaglen gefnogi sgiliau academaidd; a chynnig Gwobr Academi Hywel Teifi a Thystysgrif Sgiliau Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Bodlonrwydd Myfyrwyr -** Mae'r brifysgol yn ymroddedig i sicrhau fod pob myfyriwr yn fodlon ar bob agwedd o'i addysg a'i brofiad ac mae ganddi ddull wedi'i gynllunio i wneud gwelliannau. Mae'r Brifysgol wedi gwneud yn well na'r targed cyffredinol am fodlonrwydd yn AMS 2015-16, sef 87%, gan gyrraedd 90% (NSS 2016). Yn yr asesiad Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ddiweddaraf mae'r metrigau ar gyfer myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol hefyd yn dangos bod y grwpiau myfyrwyr hyn yn eithaf bodlon ar draws Dysgu, Asesu ac Adborth, ac mae Cefnogaeth Academaidd yn enwedig yn derbyn arwyddion cadarnhaol (yn sylweddol uwch na'r meincnod targed) yn BME, Ifanc ac Aeddfed a'r rhai mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

**Rhyngwladoli -** Methodd y Brifysgol o drwch blewyn â chyrraedd y ddau darged yma ar gynllun ffioedd 2015-16 yn yr AMS ond mae'n dal i ddangos arwyddion o berfformiad cryf. Roedd nifer y myfyrwyr dderbyniodd lleoliad gwaith neu astudio yn 426 o gymharu â tharged o 460. Fodd bynnag, roedd hyn yn bennaf oherwydd newid i strwythur un o'n rhaglenni oedd yn golygu na ddigwyddodd unrhyw leoliadau tramor am un flwyddyn yn unig. Oni bai am hynny byddai'r targed wedi cael ei gwrdd. Fodd bynnag, i helpu cynyddu niferoedd bydd y Brifysgol hefyd yn edrych ar ddyblu'r fwrsariaeth ychwanegol sy'n cael ei roi i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel o £250 i £500 i geisio helpu symud cyllid rhag bod yn rhwystr i brofiadau tramor. Y targed arall a fethwyd o drwch blewyn oedd canran y myfyrwyr tramor sy'n astudio yn Abertawe. Llwyddodd y Brifysgol i gyrraedd 15.3% o gymharu â tharged o 16%. Er na chafodd y canran ei gyrraedd roedd nifer y myfyrwyr dan sylw yn 2,670 yn erbyn targed o 2,600. Mae hyn yn dangos bod twf myfyrwyr tramor yn y Brifysgol yn dal yn gryf iawn.

**Cyflogadwyedd -** Gwnaeth y Brifysgol yn well na'r targedau hefyd gyda'r ddau darged cyflogadwyedd gyda 93.2% o fyfyrwyr (targed o 92.8%) mewn cyflogaeth neu'n astudio 6 mis ar ôl graddio ac 81.2% (targed o 76.7%) mewn swydd lefel broffesiynol/astudiaeth bellach. Mae cyflogadwyedd wedi dod yn gryfder allweddol i Brifysgol Abertawe wedi'i yrru gan

Academi Cyflogadwyedd Abertawe a gweithgareddau cysylltiedig i arfogi ein myfyrwyr gyda'r wybodaeth a'r sgiliau y mae cyflogwyr am eu cael. Mae metrigau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu hefyd yn darparu tystiolaeth bellach o'n llwyddiant gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol - Myfyrwyr Aeddfed, POLAR, Cymunedau'n Gyntaf, BME ac Anabl i gyd yn cyflawni'n sylweddol uwch na'r targed meincnod (arwyddion cadarnhaol) ar gyfer Cyflogaeth Sgiliau Uchel/Astudiaeth Bellach.

**Proses Werthuso ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad o 2017-18 ymlaen**

Mae Gweithgor Cynllunio Ffioedd a Mynediad y Brifysgol wedi trafod ymhellach sut y dylai'r gwaith o werthuso'r Cynllun Ffioedd a Mynediad nesaf (2017-18) gael ei wneud a sut y bydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio i werthuso cynllun 2019-20. Sylweddolwyd ei bod hi'n anymarferol i werthuso'r cynllun cyfan ac asesu cydymffurfio/effaith pob gweithgaredd/ menter. Oherwydd hyn bydd y Brifysgol yn mabwysiadu'r dull canlynol fydd yn cynnig lefel uchel o werthuso drwy asesu targedau ac asesiad wedi'i dargedu'n fwy penodol wedi ei anelu at 3-4 amcan yn seiliedig ar werthuso mentrau allweddol sy'n sylfaen i'r amcanion hynny. Trefn werthuso:

- Nodi 3 - 5 o Amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad i'w gwerthuso
- Nodi'r gweithgareddau a'r mentrau allweddol sy'n sylfaen i'r amcanion hyn
- Bydd pob gweithgaredd/menter allweddol yn cael ei werthuso gan ddefnyddio templed gwerthuso sy'n asesu cydymffurfio, yn nodi amcanion a thargedau/deilliannau allweddol ac yn adrodd ar beth sydd wedi cael ei gyflawni yn erbyn mesurau penodol o effaith/llwyddiant. Bydd y templed hefyd yn ceisio adnabod unrhyw broblemau neu opsiynau ar gyfer gwella/datblygu mewn cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn y dyfodol.
- Cwrdd â pherchnogion cyfrifol gweithgareddau a mentrau allweddol i'w harwain drwy'r broses werthuso.
- Pan fydd data targedau'n dod ar gael bydd y targedau yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cael eu hadolygu i nodi meysydd ar gyfer gwella ac i helpu targedu gweithgaredd yn y dyfodol.
- Bydd canlyniadau'r gwerthuso'n cael eu hadrodd i Weithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn Tach/Rhag 2018 i adolygu'r gwerthusiad a nodi datblygiadau fydd yn hysbysu cynllun 2020-21. Bydd hyn hefyd yn cael ei adrodd i'r Cyngor.

**Gwerthuso Cynlluniau Blaenorol (hyd at 2016-17)**

Mae'r Brifysgol yn adnabod y gofyniad a'r angen i werthuso ei Gynllun Ffioedd a Mynediad y tu hwnt i'r lefel yn y Datganiadau Monitro Blynyddol. Wrth ddatblygu Cynllun 2018-19 cafodd templed peilot ei ddatblygu ar gyfer Cydymffurfio a Gwerthuso er mwyn helpu'r Brifysgol i adolygu perfformiad Cynllun Ffioedd 2016-17. Dangosodd yr adolygiad hwn y dylai mwyafrif ei weithgareddau aros heb eu newid gydag eraill yn galw am ragor o gyfranogiad gan golegau academaidd a phartneriaid mewnol/allanol eraill er mwyn cael mwy o effaith. Dangosodd yr adolygiad hefyd yr angen i sefydlu dulliau priodol o asesu effaith y mentrau yn amrywio o fwy o wybodaeth data; adnabod targedau priodol i fesur effaith/llwyddiant a lle bo'r angen i

gasglu adborth gan fyfyrwyr i weld pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud. Mae llawer o'r ystyriaethau hyn wedi hysbysu datblygiad darpariaeth cynlluniau Ffioedd a Mynediad 2018-19 a 2019-20 megis dyblu'r fwrsariaeth sydd ar gael i fyfyrwyr incwm isel sy'n dymuno mynd ar leoliad tramor.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019-20, mae gweithgor wedi cael cyfarwyddyd i adolygu'r canllawiau gan CCAUC a gwerthuso ein dull a'n hopsiynau ar gyfer datblygu. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o bob rhan o'r Brifysgol gyda chylch gorchwyl sydd o fewn cyfrifoldebau'r cynllun Ffioedd a Mynediad:

| | | |
|---|---|---|
| Dirprwy Is-ganghellor (Cadeirydd) | Uned Gynllunio | Derbyniadau a recriwtio myfyrwyr |
| Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru | Academi Cyflogadwyedd Abertawe | Uned Gydraddoldeb |
| Y Ganolfan Llwyddiant Academaidd | Academi Cynhwysiant a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe | Gwasanaethau Myfyrwyr e.e. Bywyd Campws, Swyddfa Anabledd, Llesiant |
| Undeb y Myfyrwyr | Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe | Ymgysylltiad Myfyrwyr |
| Cyllid | Academi Hywel Teifi | Gwybodaeth Rheoli |
| Addysg Barhaus Oedolion | Uned Partneriaethau Academaidd | Gwasanaethau Academaidd |

Mae'r grŵp yma'n cyfarfod i adolygu'r cynnwys presennol, i drafod yr angen i ehangu neu i leihau'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun, ac i drafod blaenoriaethau ac unrhyw feysydd ar gyfer eu datblygu. Cytunodd y grŵp bod yr amrediad o fyfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cael ei gynnwys yn y cynllun yn helaeth ac yn dystiolaeth i'n hamrywiaeth. Cytunwyd y dylai'r rhestr aros heb ei newid ar gyfer 2019-20. Roedd y prif weithgaredd gwerthuso i weithgor y cynllun Ffioedd a Mynediad eleni wedi'i dargedu at gychwyn adolygiad o'r bwrsariaethau cysylltiedig ag incwm.

**Adolygiad o’r Fwrsariaeth Cysylltiedig ag Incwm ar gyfer 2019-20**

Adeg ysgrifennu’r cynllun, mae’r Brifysgol yn y broses o adolygu ei chynnig o Fwrsariaethau Cysylltiedig ag Incwm. Grantiau Prifysgol yw’r rhain sy’n cael eu rhoi i fyfyrwyr o gartrefi incwm isel i’w helpu gyda chostau byw yn ystod eu hastudiaethau. Pwrpas y bwrsariaethau hyn felly yw helpu i gadw’r myfyrwyr hyn drwy leihau’r pwysau ariannol y maent yn debygol o’u hwynebu. Gyda threfniadau cefnogi myfyrwyr newydd i fyfyrwyr yng Nghymru’n cael eu cyflwyno ym mis Medi 2018, mae’r Brifysgol wedi penderfynu adolygu ei chynnig ar gyfer 2019-20 ymlaen.

Mae’r adolygiad hwn o gynnig wedi ei hysbysu gan werthusiad cynharach o’n bwrsariaethau yn 2014 (yn cynnwys arolwg sylweddol a grwpiau ffocws ymysg myfyrwyr). Canfyddiad y gwaith hwn oedd bod ein bwrsariaethau’n effeithiol iawn yn cynnal myfyrwyr i aros yn astudio:

- Roedd dros 90% o'r myfyrwyr a holwyd yn cytuno bod y bwrsariaethau cysylltiedig ag incwm yn annog myfyrwyr i wneud cais ac i aros yn y Brifysgol.
- Ymhlith myfyrwyr sy'n derbyn bwrsariaeth y ddwy agwedd bwysicaf y mae'r fwrsariaeth yn eu cefnogi yw darparu cefnogaeth ar gyfer costau byw o ddydd i ddydd (98% yn cytuno) ac ysgafnhau pwysau ariannol ar eu teuluoedd (91%).
- Cytunodd y grŵp ffocws o fyfyrwyr bod y bwrsariaethau'n bwysig i alluogi myfyrwyr i allu fforddio dod i'r brifysgol.
- Roedd traean o fyfyrwyr oedd yn derbyn bwrsariaeth gysylltiedig ag incwm yn dod o ardal Cymunedau'n Gyntaf/POLAR 3. Cred y Brifysgol fod y polisi presennol o seilio cymhwyster ar incwm isel yn hytrach nag ar fesur codau post yn gywir gan y gall myfyrwyr ddod o deuluoedd incwm isel mewn unrhyw ardal.

Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod ein bwrsariaethau'n chwarae rhan bwysig a hanfodol yn cefnogi myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel i fod â'r hyder ariannol er mwyn gwneud cais i brifysgol. Maent hefyd yn chwarae rhan allweddol yn eu cefnogi gyda chostau byw cyffredinol o ddydd i ddydd sy'n ffactor sylweddol i gefnogi cadw myfyrwyr a dilyniant. Yn seiliedig ar yr arolwg blaenorol hwn rydym yn hyderus fod ein bwrsariaethau'n effeithiol.

Serch hynny, rydym hefyd wedi nodi'r pecyn cynnal myfyrwyr hael sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru (o 2018-19) i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru a'r cynnig o fenthyciadau cynnal sylweddol i fyfyrwyr o Loegr yn arbennig. Oherwydd hyn, teimlwn y bydd myfyrwyr yn derbyn digon o gefnogaeth ariannol ac felly rydym yn cwestiynu a fyddai'r swm sylweddol o'r incwm ffioedd rydym yn ei wario ar fwrsariaethau cysylltiedig ag incwm yn cael ei ddefnyddio'n well i gefnogi a gwella mentrau eraill Ffioedd a Mynediad. Rydym felly wedi penderfynu parhau gyda'r arolwg hwn ac ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio'r arian hwn i gynyddu ein darpariaeth ehangu mynediad sydd wedi ei anelu at annog myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i astudio yn y Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn adolygu ei opsiynau rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2018 i hysbysu datblygiadau yn y cynllun Ffioedd a Mynediad nesaf yn 2020-21. **Tra bod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal cohort 2019-20 fydd yr un olaf i fwrsariaeth gysylltiedig ag incwm gan dderbyn cefnogaeth ar gyfer un flwyddyn yn eu blwyddyn gyntaf yn unig.** Bydd rhagor o wybodaeth ar hyn ar gael i fyfyrwyr ar dudalen gwe bwrsariaethau'r Brifysgol yn nes at adeg dod i mewn yn 2019-20: Tudalen gwe Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau <http://www.swansea.ac.uk/scholarships/>.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi adnabod bod ei chynnydd gyda datblygiadau **Dadansoddi Dysgu** yn enwedig mewn perthynas â monitro presenoldeb gyda darllenydd cardiau ar gyfer pob myfyriwr sy'n cael ei ddysgu sydd bellach wedi galluogi adnabod yn gynnar y myfyrwyr sydd mewn perygl o gynnydd gwael yn seiliedig ar ddadansoddiad o'u hymgysylltiad ag addysgu sydd wedi'i amserlennu. Mae'r ffocws yn 2017/18 wedi bod ar ddod â'r holl ddata asesu, electronig ac ar bapur, i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir. Ynghyd â data presenoldeb, bydd hyn yn dod â ni'n nes at ein hamcan strategol o gael un darlun i staff a myfyrwyr o ymgysylltiad myfyrwyr gyda'u haddysgu, amgylchedd dysgu rhithwir ac asesiadau. Bydd dadansoddi dysgu yn cefnogi'r potensial am well dilyniant, cadw a deilliannau ar gyfer pob myfyriwr drwy'r system gefnogi fugeiliol ac academaidd.

Ar draws y cynllun Ffioedd a Mynediad, mae'r Brifysgol yn disgwyl buddsoddi £20.3m (17.6%) o gyfanswm ei incwm ffioedd yn 2019/20 ar draws y categorïau o ddarpariaeth sydd wedi eu rhestru yn y cynllun. Mae'r buddsoddiad hwn wedi'i blannu o fewn y prif wasanaethau sy'n cefnogi cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo AU ac mae'n gwbl seiliedig ar ddarparu profiad dysgu cynhwysol sy'n cefnogi **Mynediad, Dilyniant, Cadw a Deilliannau** myfyrwyr. Dyma rai enghreifftiau:

- Bywyd y Campws – arian, caplaniaeth, rhyngwladol a lles
- Gwasanaethau Cynhwysol Cefnogi Myfyrwyr – anabledd, lles, canolfan asesu
- Academi Cynhwysiant a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe
- Academi Cyflogadwyedd Abertawe
- Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe
- Academi ar gyfer Dysgwyr Proffesiynol
- Addysg Barhaus Oedolion
- Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr
- Canolfan Llwyddiant Academaidd (sy'n cynnwys y Rhaglen Llwyddiant Academaidd a mentrau Llwyddiant Mathemateg ac Ystadegau)
- Academi Hywel Teifi
- Gweithgaredd ar y cyd a chefnogaeth i Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru (SWWRWP)

Mae'r cynllun Ffioedd a Mynediad hefyd yn adlewyrchu ar y ddarpariaeth, y cydweithio a'r gweithgaredd ar y cyd sy'n cael ei gyflwyno o fewn a thu allan i'r sefydliad yn enwedig yr ymdrechion hynny i greu amgylchedd astudio cynhwysol ac ehangu mynediad/cyfranogiad. Mae'n partneriaeth glos gyda **Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru** (SWWRWP) yn enghreifftio'r dull hwn gan ddarparu menter benodol estyn allan ar y cyd. Mae'r SWWRWP yn cael ei ariannu'n bennaf gan CCAUC ond mae hefyd yn derbyn adnoddau gan y Brifysgol sy'n darparu gofod swyddfa ac yn cyfrannu tuag at y gyllideb cyflogau.

Ar hyn o bryd mae rheolwr SWWRWP yn aelod o grŵp cynllunio Ffioedd a Mynediad gan helpu i arwain sgyrsiau am grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a nodi blaenoriaethau i fynd i'r afael â nhw yn y cynllun. Ar ben hyn mae rheolwr y bartneriaeth hefyd yn aelod o ), Grŵp Rheoli SAILS a chymuned ymarfer ar gyfer ehangu mynediad ar draws y Brifysgol.

Mae'r bartneriaeth yn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu cefnogi gwaith SWWRWP ond hefyd yn ffocysu ei sylw ar flaenoriaethau eraill ehangu mynediad/cyfranogiad. Er enghraifft mae'r SWWRWP yn ffocysu ar waith gyda phobl ifanc o godau post Cymunedau'n Gyntaf sy'n astudio mewn ysgolion/colegau tra bod y Brifysgol yn arwain ar waith yn targedu grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol megis myfyrwyr hŷn yn y gymuned drwy gyfrwng ei rhaglen addysgu i oedolion yn y gymuned yn cynnwys sesiynau blasu i ennyn diddordeb ac ymgysylltiad. Mae'r bartneriaeth hefyd yn alinio gweithgareddau fel bod ymdrechion gan y SWWRWP i ysbrydoli myfyrwyr o gefndir gofal i ddod i mewn i AU, er enghraifft, yn cael eu cefnogi gan y Brifysgol i fynediad (cynnig graddau is), cynnydd (cyfleoedd y rhaglen Llwyddiant Academaidd), cadw (bwrsariaethau a mentor penodol) a chyflawni (Academi Cyflogadwyedd Abertawe). Yn yr un modd mae polisi derbyniadau cyd-destunol y Brifysgol yn alinio â grwpiau

targed SWWRWP ac mae'r rhai sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau Estyn yn Ehangach yn gymwys i gael ystyriaethau ychwanegol.

Ar gyfer 2019-20 mae CCAUC wedi cyfarwyddo'r Brifysgol i gyfrannu arian cyfatebol i gyfraniad CCAUC i'r Bartneriaeth, sydd o gwmpas £280,000. Fodd bynnag, mae hwn yn ddatblygiad cymharol newydd (Mai 2018) ac mae'r Brifysgol a'r SWWRWP yn cynnal trafodaethau gyda CCAUC ynghylch union drefniadau a gofynion yr ariannu cyfatebol yma. Bydd cynllun ar wahân gan y Brifysgol (i'w gyhoeddi Medi 2018) yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio'r arian cyfatebol hwn i dargedu myfyrwyr potensial rhwng 16 a 21 oed sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru. I gyd-fynd â'r gweithgaredd newydd hwn ac i osgoi dyblygu bydd y SWWRWP yn targedu myfyrwyr dan 16 a dros 21 sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru. Gall y gweithgaredd hwn gael ei ychwanegu i'r cynllun hwn yn ddiweddarach.

## Amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad wedi cael ei alinio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru a CCAUC ac wrth wneud hyn mae'r Brifysgol wedi penderfynu mabwysiadu'r 14 mesur a nodwyd ar draws Cyfleoedd Cyfartal a Hyrwyddo AU fel ein hamcanion Ffioedd a Mynediad:

**Cyfleoedd cyfartal i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn addysg uwch:**

1) Hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch, yn cynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;
2) Denu a chadw myfyrwyr a myfyrwyr potensial o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;
3) Codi dyheadau a sgiliau addysgol pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gefnogi llwyddiant mewn addysg uwch;
4) Cefnogi a chynyddu cadw, dilyniant a chwblhau yn enwedig ymysg pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr;
5) Gwella'r profiad o addysg uwch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn addysg uwch;
6) Darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol cyn ac yn ystod eu hastudiaethau;
7) Darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd da i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn addysg uwch; a
8) Chefnogi'r dilyniant i gyflogaeth ne astudiaethau pellach ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn addysg uwch.

**Hyrwyddo Addysg Uwch**

1) Darparu ymgysylltiad mwy effeithiol gyda chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a gyda chymunedau yng Nghymru;
2) Gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan gyfeirio at ansawdd profiad myfyrwyr;
3) Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru;
4) Hyrwyddo addysgu uwch yng Nghymru'n fwy effeithiol yn rhyngwladol;
5) Darparu addysg uwch gynaliadwy; a

6) Chodi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch i fyfyrwyr potensial.

Oherwydd natur gorgyffwrdd mesurau Llywodraeth Cymru/CCAUC dylid sylweddoli y bydd darparu dan un mesur/amcan hefyd yn cefnogi eraill yn uniongyrchol. Enghraifft o hyn fyddai lle bydd darpariaeth i gynnig bwrsariaethau incwm isel yn cefnogi llawer o fesurau megis y rhai i sicrhau mynediad teg ac i ddenu a chadw myfyrwyr. Mae hyn wedi cael ei nodi wrth geisio amcanu sut y mae buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad wedi cael ei rannu ar draws yr 14 mesur/amcan.

## Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch

Wrth nodi a dewis y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol oedd i gael eu cynnwys yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad, rhoddwyd ystyriaeth i'r prif strategaethau/blaenoriaethau cenedlaethol a rhai'r Brifysgol, cyfeiriwyd at ddata proffil ein myfyrwyr ac ymgynghorwyd â'n Grŵp Datblygu Cynllun Ffioedd a Mynediad sy'n cynnwys Undeb y Myfyrwyr a Phartneriaeth Estyn yn Ehangach De-orllewin Cymru (SWWRWP).

Cafodd y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn ei hysbysu'n benodol gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol, gan ymateb yn benodol i un o'r pedwar deilliant y manylwyd arnynt yn y cynllun:

*Deilliant 4 – O ganlyniad i ddiddymu'r rhwystrau i gyflawniad myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, neu rai sy'n ddifreintiedig oherwydd eu cefndir economaidd-gymdeithasol neu amgylchiadau eraill, bydd y Brifysgol yn ennill cydnabyddiaeth allanol am ddarparu profiad rhagorol i'w myfyrwyr.*

Mae llawer o'r grwpiau isod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch yn gyffredinol ac mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn rhoi manylion nifer o ddeilliannau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â myfyrwyr sydd â'r holl nodweddion gwarchodedig ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried wrth nodi a dethol y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol oedd i gael eu cynnwys.

Dewiswyd y grwpiau canlynol i gael eu cynnwys:

| Grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol | Rheswm dros ei gynnwys |
|---|---|
| **Ehangu Cyfranogiad -** Myfyrwyr o ardaloedd cyfranogaeth isel fel y'u diffinnir gan godau post **POLAR3 (fydd yn cael ei ddiweddaru i POLAR 4)**. | Mae Llywodraeth Cymru a CCAUC eisiau annog myfyrwyr i fynd i mewn i AU yn enwedig o ardaloedd lle mae lefelau is o gyfranogaeth yn draddodiadol. Yn nodweddiadol, mae 31% o'n myfyrwyr yn dod o ardal lle mae cyfranogaeth mewn addysg uwch yn isel. |
| **Ehangu Mynediad** - Myfyrwyr o ddau gwintel isaf Mynegrif | Wrth ysgrifennu cynllun 2019-20 dechreuodd CCAUC wneud y Brifysgol yn ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella canrannau myfyrwyr AU o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn bellach wedi ei adnabod |

| | |
|---|---|
| Amddifadedd Lluosog Cymru. | fel y ddau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) yn MALIC. Gan weithio mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Estyn yn Ehangach De Orllewin Cymru, bydd y Brifysgol yn datblygu cynlluniau i dargedu myfyrwyr o'r ardaloedd hyn. Gan fod rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu (erbyn Medi 2018) bydd gweithgaredd ar gyfer hyn yn gorfod cael ei ychwanegu i'r cynllun hwn yn ddiweddarach. |
| Myfyrwyr o gartrefi **incwm isel** | Rydym yn cydnabod y gall myfyrwyr sy'n dod o deuluoedd ag incwm fod yn byw mewn unrhyw ardal ac y byddant yn wynebu rhwystrau ariannol sylweddol. Yn 2017-18 roedd tua 28% o fyfyrwyr israddedig yn gymwys ar gyfer ein bwrsariaeth incwm isel i'w cynorthwyo gyda chostau byw tra roeddent yn astudio. |
| **Myfyrwyr ag 'ystyriaethau ychwanegol** | **Plant sy'n derbyn Gofal (LAC)** - Mae'r grŵp hwn o fyfyrwyr (72 o fyfyrwyr i gyd ar draws pob math a lefel o astudiaeth yn 2016-17, +15 ar 15-16) yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru/CCAUC, y Brifysgol a Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, gan fod cyfran y Plant sy'n derbyn Gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n mynd drwy TGAU i AU yn isel dros ben. Yn 2016-17, dim ond 0.5% o gyfanswm myfyrwyr gradd gyntaf yn dod i mewn i'r Brifysgol oedd yn fyfyrwyr LAC.<br>.<br><br>**Myfyrwyr wedi Ymddieithrio** - Mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni yn grŵp y mae'r Brifysgol yn cydnabod eu bod yn profi heriau penodol. Mae 15 o fyfyrwyr yn 16-17 ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u statws. Mae nifer o fentrau, yn gynnwys cefnogaeth ariannol, a chyngor wedi ei dargedu, yn eu lle. Bydd rhoi cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth sydd ar gael yn annog myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio i wneud eu hunain yn hysbys a mynd at y gwasanaethau perthnasol.<br><br>**Myfyrwyr sy'n Ofalwyr -** Gall mynd i'r Brifysgol fod yn arbennig o heriol i ofalwyr, gan y gall cydbwyso cyfrifoldebau allanol gydag astudiaethau fod yn heriol. Adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau astudiaeth a wnaed o fyfyrwyr sy'n ofalwyr gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Dangosai'r canlyniadau mai dim ond 36% o fyfyrwyr oedd yn ofalwyr oedd yn teimlo eu bod yn gallu cydbwyso eu hymrwymiadau (megis gwaith, astudio a theulu / perthynas), o gymharu â 53% o fyfyrwyr nad oedd ganddynt gyfrifoldebau gofalu (NUS, 2013). |
| **Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg** | Grŵp blaenoriaeth arall i'r Brifysgol. Mae Llywodraeth Cymru a CCAUC yn ceisio hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfle i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg astudio eu dewis gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data proffil myfyrwyr Abertawe yn dangos bod ychydig dros 340 o fyfyrwyr yn astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Abertawe'n gweithio |

| | |
|---|---|
| | mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i osod targedau ar gyfer darparu meysydd pwnc allweddol yn Gymraeg gyda golwg ar fynd i'r afael ag anghenion strategol diwydiant/sectorau, e.e. Nyrsio, Peirianneg a Meddygaeth. |
| **Myfyrwyr Rhan-amser** | Mae astudio rhan-amser yn dal yn flaenoriaeth i CCAUC gan ei fod yn helpu pobl i ennill cymwysterau galwedigaethol, yn ehangu mynediad ac yn cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr. Ym Mhrifysgol Abertawe, dim ond rhyw 15% o fyfyrwyr israddedig (gradd gyntaf a di-radd) sydd ar gwrs rhan-amser (16-17). Mae mwyafrif y myfyrwyr hyn yn astudio cwrs di-radd gan mai dim ond rhyw 1.4% o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf sy'n astudio'n rhan-amser. |
| **Myfyrwyr Aeddfed** | Mae myfyrwyr aeddfed yn cael eu hystyried yn rhan o agenda ehangu mynediad gan Lywodraeth Cymru a CCAUC sydd ag agwedd pob oedran tuag at ehangu mynediad. Dengys data proffil myfyrwyr 2016-17 fod y gyfran o fyfyrwyr aeddfed (+21 oed) yn lleihau'n raddol ac yn awr yn cyfrif am 12% o israddedigion gradd gyntaf, llawn amser (7% ar gyfer +25 oed). Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr wedi aros fwy neu lai yr un fath dros y blynyddoedd diwethaf e.e. 589 yn 2013-14 a 593 yn 2016-17. Mae'r ddarpariaeth ran-amser a gynigir yn Abertawe yn cynnig llwybr arall i fyfyrwyr aeddfed ddilyn addysg uwch. |
| **Myfyrwyr Anabl** | Fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac fel yr anogir gan CCAUC (yn cynnwys cyllid a dderbynnir i gynorthwyo myfyrwyr anabl) mae sicrhau bod modd i fyfyrwyr anabl astudio yn Abertawe yn rhan bwysig o’n hagenda cynhwysiant. Yn 2016-17 roedd tua 11.7% o'n myfyrwyr israddedig llawn amser, gradd gyntaf wedi datgan fod ganddynt anabledd. Mae nifer y myfyrwyr sydd wedi cael eu cofrestru ac wedi datgan anabledd wedi cynyddu o 347 yn 2013-14 i 603 yn 2016-17 (cynnydd o 73%). |
| **Myfyrwyr Cartref Du ac o Gefndir Ethnig Lleiafrifol (BAME)** | Mae data proffil myfyrwyr yn awgrymu bod nifer y myfyrwyr BAME, sy'n byw yn y DU, blwyddyn gyntaf, gradd gyntaf yn cynyddu. Yn 2013-14 roedd 332 (8.5%) yn cynyddu i 539 (10.5%) yn 2016-17 sy'n cynrychioli twf o 62% mewn pedair blynedd.<br><br>Fodd bynnag, mae bwlch cyrhaeddiad (y gyfran o'r rhai sy'n ennill gradd yn y dosbarth cyntaf neu'r ail ddosbarth) rhwng myfyrwyr nad ydynt yn BAME, sy'n byw yn y DU, a rhai grwpiau o fyfyrwyr BAME sy'n byw yn y DU (mae hyn yn cael ei gydnabod yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol). Fodd bynnag, fe fydd llawer o ffactorau yn dylanwadu ar y bwlch hwn megis y cymwysterau wrth ddod i'r Brifysgol, y pwnc a astudir a'r gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad ar draws is-grwpiau BAME. |

| | |
|---|---|
| **Ceiswyr Lloches** | Ar hyn o bryd, os nad oes gan geisiwr lloches fodd i ariannu ei astudiaethau israddedig ei hun ar y gyfradd ryngwladol lawn, nid oes gostyngiad yn y ffi na chymorth ariannol i fyfyrwyr ar gael drwy'r Brifysgol. Nid yw ein cofnodion yn dangos unrhyw Geiswyr Lloches sy'n astudio'n llawn amser ar gyfer gradd ym Mhrifysgol Abertawe. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yna ddiddordeb mewn darpariaeth o'r fath. Mae Abertawe hefyd wedi ei dynodi yn Ddinas Noddfa. |
| Nodweddion Gwarchodedig Eraill:<br>**Crefydd a Chredo**<br>**Cyfeiriadedd rhywiol**<br>**Ailbennu rhywedd**<br>**Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Mae'r Brifysgol yn sylweddoli y gall myfyrwyr hefyd feddu ar nodweddion gwarchodedig eraill. I'r grwpiau hyn, mae'n bwysig i ni ddarparu amgylchedd astudio cynhwysol lle y gall myfyrwyr gyrraedd eu potensial llawn, dileu rhwystrau i ddysgu, ymgysylltu â myfyrwyr a gwella eu profiad fel myfyrwyr.<br><br>O fewn data proffil y myfyrwyr, mae gwybodaeth am y grwpiau hyn yn gyfyngedig ac, yn rhai achosion, nid oes gennym ddata o gwbl wedi ei gofnodi neu nid yw myfyrwyr yn dymuno datgan yr wybodaeth. Mae'r hyn a wyddom wedi ei grynhoi isod:<br><br>Mae data proffil myfyrwyr 2016-17 ar hyn o bryd yn dweud wrthym fod oddeutu 32% o fyfyrwyr gradd gyntaf, llawn amser yn ystyried eu bod yn perthyn i ryw fath o grefydd neu gred (24% Cristnogion, 4% Mwslim, 3.5% arall) ond gallai hyn fod yn uwch gan fod y 15% wedi dewis peidio â dweud.<br><br>O'r rhai oedd yn fodlon dynodi eu cyfeiriadedd rhywiol, mae'r data'n awgrymu bod tua 24% o'r holl fyfyrwyr â chyfeiriadedd rhywiol ar wahân i heterorywiol. Roedd yn well gan 50% beidio â dweud neu gadawyd y cwestiwn heb ei ateb. |

# Mesurau cyfleoedd cyfartal sy'n cefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn addysg uwch:

**1) hybu a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o gefndiroedd dan anfantais;**

| |
|---|
| **Mynediad: Galluogi unigolion o grwpiau a dangynrychiolir i fynd i mewn i addysg uwch drwy...**<br><br>• Darparu ymweliadau **Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr y DU i ysgolion a cholegau AB** sydd â chyfrannau uchel o ddisgyblion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Cynnal y **rhaglen ar-lein** **Estyn Allan i Ysgolion a Cholegau** sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i ysgolion a cholegau AB i gefnogi mynediad i addysg uwch. |

- Parhau i gefnogi darpariaeth **Partneriaeth Estyn yn Ehangach De-orllewin Cymru** (SWWRWP) yn 19-20 drwy gyfrwng arian cyfatebol i'r gyllideb ar gyfer gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar Brifysgol Abertawe (£45,000), gan roi cartref i'r ddarpariaeth a chyfrannu tuag at gostau cyflogau.
- Cynnig polisi mynediad cyd-destunol gan gynnig derbyn ar raddau is mewn amgylchiadau penodol.
- Darparu llwybrau dilyniant drwy gynnig **blwyddyn sylfaen** mewn Peirianneg, Gwyddoniaeth a'r Celfyddydau a Dyniaethau i unigolion sy'n methu cael mynediad uniongyrchol i flwyddyn gyntaf gradd israddedig lawn amser.
- Arweiniad gwell ar y **gefnogaeth ar gyfer anableddau** a chyflyrau eraill i ddarpar fyfyrwyr yn cynnwys gwell cefnogaeth i fyfyrwyr sydd wedi dweud fod ganddynt anabledd pan fyddant yn dod i ddyddiau agored. Cysylltir â'r myfyrwyr cyn eu hymweliad i'w gwahodd i fynychu apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Anabledd/Lles yn ystod eu hymweliad dydd. Mae hefyd canllaw i ddarpar fyfyrwyr ag anableddau <http://www.swansea.ac.uk/media/Guide%20on%20Extra%20Help%20and%20Support.pdf> ar gael.
- Rhwydwaith cymuned ymarfer ar gyfer staff i rannu arferion da a chydweithio ar weithgareddau sy'n hybu cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Mae cynllun a awgrymwyd i ddarparu cefnogaeth cyllido i Geiswyr Lloches ar gyfer 20-21 yn cael ei drafod ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad ehangu mynediad recriwtio.
- Gweithgareddau i hybu **addysg uwch ran-amser i ddysgwyr sy'n oedolion** gan gynnwys deunyddiau hyrwyddo, llyfrynnau, posteri, cyfryngau cymdeithasol a gweithgaredd ar y we i hybu cyfleoedd i astudio gydag Addysg Gymunedol Oedolion yn y Coleg Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe.
- Cynnal digwyddiadau agored yn y gymuned, darlithoedd cyhoeddus yn y gymuned, sesiynau blasu (1.5 i 2 awr) a chyrsiau blasu am ddim (2 awr am 2 wythnos) i annog myfyrwyr aeddfed sydd wedi bod allan o addysg ers peth amser i fynd ymlaen i gyfleoedd astudio pellach.
- Modiwlau byr rhan-amser, 10 ac 20 credyd wedi eu hachredu ar lefel AU, yn cael eu cynnig ar draws yr holl gwricwlwm rhan-amser i ddysgwyr sy'n oedolion yn ystod y dydd a gyda'r nos ar Gampws y Parc ac yn y Gymuned.
- Cynnal rhaglenni achrededig Blas ar Addysg Uwch (rhan-amser) a Pharatoi ar gyfer Addysg Uwch (rhan-amser) ar gyfer myfyrwyr aeddfed.
- Darparu saith rhaglen israddedig rhan-amser ar y campws ac mewn lleoliadau yn y gymuned i gefnogi ehangu cyfranogaeth.

**Unedau Gwasanaeth Cyfrifol:**
Academi Cynhwysedd a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS), Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Marchnata - Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr y DU, Gwasanaeth Anabledd, Gwasanaethau Myfyrwyr.

**Sail resymegol dros y gweithgareddau:**
- Cyflawni datganiad polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ehangu mynediad ... "Dylai addysg uwch fod ar gael i bob un sydd â'r potensial i elwa waeth beth fo'u hoedran, rhyw, modd a lefel astudio a'u gwlad wreiddiol a'u cefndir.."
- Er mwyn cyflawni amcan strategol Prifysgol Abertawe o ehangu mynediad i addysg uwch.

| |
|---|
| • Mae cyfrannu i Bartneriaeth SWWRWP er mwyn codi uchelgais, hybu mynediad i'r proffesiynau, paratoi myfyrwyr ar gyfer addysg bellach/uwch a hybu AU yn ddull effeithiol o ychwanegu gwerth i weithgareddau sy'n targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. |
| **Grwp(iau) Myfyrwyr:**<br>Unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch |
| **Targedau**<br>Bydd y gweithgareddau a restrwyd uchod yn cefnogi cyrraedd y targedau cyfranogaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a restrwyd yn Nhabl G yn Atodiad Aii. |

2) **<u>denu</u> a <u>chadw</u> myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, all gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig a myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig;**

3) **<u>codi uchelgais addysgol a datblygu sgiliau</u> sy'n paratoi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer addysg uwch;**

4) **cefnogi a chynyddu <u>cadw myfyrwyr a chwblhau eu cyrsiau</u> yn enwedig rhai o ardaloedd cyfranogiad isel, plant sy’n derbyn gofal, rhai sy’n gadael gofal a gofalwyr;**

7) **darparu <u>cefnogaeth academaidd a lles o safon uchel</u> i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;**

Mae'r Brifysgol wedi penderfynu grwpio'r pedwar amcan uchod gan eu bod i gyd yn ymwneud mewn rhyw ffordd â denu, cadw a dilyniant myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**MYNEDIAD:**

| |
|---|
| **Gweithgaredd:**<br>**Graddau Sylfaen,** wedi’u hachredu gan Brifysgol Abertawe a’u cyflwyno mewn partneriaeth gyda Cholegau Addysg Bellach. Mae’r rhain yn darparu llwybrau at Beirianneg, Gwyddor Gyfrifiadurol a meysydd astudio galwedigaethol eraill ar lefel AU, gyda dilyniant at raddau baglor.<br><br>• Mae **Gradd Sylfaen** mewn Iechyd a Gofal yn cael ei datblygu yng Ngholeg Sir Benfro ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys bwrsariaeth ffi i leihau cost y cwrs dros y ddwy flynedd.<br>• Rydym yn dal i edrych ar ddarparu **Prentisiaethau Uwch a Gradd** i’w datblygu a’u cyflwyno mewn partneriaeth gyda diwydiant a cholegau AB.<br>• Yn ogystal, mae’r adran Addysg Barhaus Oedolion o fewn Coleg y Celfyddydau a Dyniaethau (COAH) ar hyn o bryd yn cynllunio cyflwyno **blwyddyn sylfaen** mewn Dyniaethau i gefnogi mynediad i raglen gradd israddedig lawn erbyn 2019-20. |
| **Wedi'i ddarparu gan:** Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei chychwyn a'i chydlynu gan CUSP (College University Skills Partnership) a'r Adran Addysg Barhaus Oedolion o fewn Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau. |

**Sail resymegol:**
Mae'r Graddau Sylfaen yn cael eu datblygu gyda chyflogwyr mewn ymateb i'w hanghenion sgiliau ac maent yn cynnig llwybr dilyniant i mewn i Addysg Uwch ac o bosib at Brentisiaethau Gradd. Drwy gyflwyno astudiaethau mewn cydweithrediad â phartneriaid AB (Coleg Sir Benfro, Coleg Gŵyr Abertawe, Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot a Choleg Cambria), mae'r Brifysgol yn gallu darparu mynediad i addysg uwch ar lefel leol. Bydd datblygiadau Prentisiaethau Gradd yn cael eu cychwyn wrth i wybodaeth am adnoddau a fframweithiau sydd ar gael ddod yn amlwg ac os yw cyflogwyr yn gefnogol.

**Grwp(iau) Myfyrwyr:**
Mae proffil y myfyrwyr ar y Graddau Sylfaen yn dangos fod gan 53% o'r myfyrwyr nodweddion ehangu mynediad, gan ddenu yn enwedig dynion ifanc gwyn o ardaloedd cyfranogiad isel. Efallai na fydd prentisiaethau gradd yn denu proffil uchel tebyg o ran ehangu mynediad.

**Targedau:**

- Cyflwyno dau gynllun Prentisiaethau Gradd mewn Peirianneg (Airbus a SMEau Rhanbarthol), ac un mewn Peirianneg Meddalwedd gyda'r DVLA ac SMEau eraill (ICT).
- Datblygu un cynllun Prentisiaeth Gradd mewn Gweithgynhyrchu Uwch.
- Datblygu data gwaelodlin ar gyfer y galw am Brentisiaethau Gradd er mwyn adnabod targedau ar gyfer 2020/21.
- Ehangu partneriaethau i gynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro. (APU)
- Archwilio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol cyflwyno potensial elfennau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhaglenni AB. (APU)

**Cynyddu recriwtio myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg**
Parhau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Bydd peth ohono mewn partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac edrych ar gynnig darpariaeth fydd yn caniatáu i fyfyrwyr fanteisio ar Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg.

**Mae gweithgareddau i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg yn cynnwys:**

- Dyddiau Blasu yn Gymraeg i Flynyddoedd 12 a 13 mewn amrywiaeth o bynciau academaidd
- Partneriaeth rhwng Tŷ'r Gwrhyd a menter Estyn yn Ehangach Prifysgol Abertawe i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd â disgyblion o gefndiroedd difreintiedig
- Dyddiau Blasu ar gyfer Disgyblion Abl a Thalentog mewn Meddygaeth a Pheirianneg
- Ysgol Haf Breswyl ar gyfer myfyrwyr Ieithoedd Modern a Chyfryngau
- Dyddiau Sgiliau Academaidd y Fagloriaeth Gymreig drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gweithio i adnabod ffynonellau cyllid i barhau i gefnogi ysgoloriaethau a bwrsariaethau i drosi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i ddilyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn 19/20. (Yn 16/17 cafodd cyfanswm o £5,300 ei glustnodi ac arweiniodd hyn at 23 myfyriwr yn derbyn arian am lefelau amrywiol o gredydau gafodd eu hastudio yn Gymraeg)

**Wedi'i ddarparu gan:** Academi Hywel Teifi

**Sail resymegol:** Annog myfyrwyr o ysgolion a cholegau AB cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn gwella eu gobaith o lwyddiant gyda'u hastudiaethau a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

**Grwp(iau) Myfyrwyr:** Myfyrwyr sy’n siarad Cymraeg

**Targedau:**

- Cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio 5+ credyd yn Gymraeg ar gyfer 2019-20 (o 342 yn 2016-17 i 440 yn 2019/20) neu 40+ credyd (o 97 yn 2016-17 i 155 yn 2019/20).
- **Prosiect Tŷ’r Gwrhyd**
  2019-20- Sicrhau ein bod yn parhau i gynyddu niferoedd i 50 o siaradwyr Cymraeg sy’n ymgysylltu â’r prosiect ar draws 5 ysgol fel cafodd ei nodi yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad 2018/19.
- **Diwrnodau Rhagflas ar Addysg Uwch Cyfrwng Gymraeg/Diwrnodau Sgiliau -** Parhau i gynnig 4 diwrnod y flwyddyn, yn targedu cyfanswm o 400 darpar fyfyriwr. Archwilio’r cyfle i gynnig sioe deithiol o gwmpas Cymru yn 2019/20
- **Diwrnodau Sgiliau Academaidd y Fagloriaeth** – Parhau i gynnig 2 ddiwrnod, un yn ne Cymru a’r llall yn y gogledd. Anelu i ddenu cyfanswm o 250 darpar fyfyriwr.

**Pecynnau Cefnogaeth i fyfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol:**

**Pecyn Cefnogi rhai sy'n Gadael Gofal:**

- Cynllun Lleihau Graddau rhai sy'n Gadael Gofal
- Bwrsariaeth o £1000 y flwyddyn (israddedigion) neu Fwrsariaeth o £1000 y cwrs (graddedigion)
- Cefnogaeth ariannol i fynychu dyddiau agored ym Mhrifysgol Abertawe
- Cyfathrebu'r gefnogaeth sydd ar gael drwy waith allanol, gwybodaeth benodol ar y we, sgyrsiau a Dyddiau Agored.

**Pecyn Cefnogi Gofalwyr** Cefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer gofalwyr sy'n cynnwys bwrsariaeth a chyswllt wedi'i enwi a mynediad blaenoriaethol i Gronfa Cyfleoedd Prifysgol Abertawe.

**Cefnogaeth i Fyfyrwyr wedi Ymddieithrio -** Mae hwn ar gael i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd ac sydd, yn nodweddiadol, heb gefnogaeth deuluol nac ariannol. Bydd y Brifysgol yn:

- Rhoi mynediad blaenoriaethol i gronfeydd dewisol/caledi
- Cyfathrebu'r gefnogaeth sydd ar gael drwy waith allanol, gwybodaeth benodol ar y we, sgyrsiau a Dyddiau Agored.
- Cefnogaeth benodol i hwyluso/helpu i wneud cais am Gyllid Myfyrwyr
- Cyswllt wedi'i enwi i weithredu fel un pwynt cyswllt rhagweithiol ar gyfer myfyrwyr wedi ymddieithrio
- Gwneud cais am gydnabod cefnogaeth ar gael drwy'r Adduned *Stand Alone*
- Sgyrsiau gwybodaeth i staff i godi ymwybyddiaeth o anghenion penodol myfyrwyr wedi ymddieithrio, a'r heriau sy'n eu hwynebu

**Wedi'i ddarparu gan:** Gwasanaethau Myfyrwyr

**Sail resymegol dros y ddarpariaeth:**

| |
|---|
| Pecyn Cefnogi rhai sy'n Gadael Gofal: Darparu pwynt cyswllt drwy gydol y cyfnod recriwtio a phontio, a thrwy gydol eu hastudiaethau, i fyfyrwyr sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n gadael gofal. Hwyluso mynediad i AU a hyrwyddo integreiddio wrth gyrraedd y brifysgol. Mae'r pecyn cefnogaeth ariannol yn sicrhau bod y grŵp yma o fyfyrwyr yn gallu cwrdd â chostau ychwanegol llety ddrwy'r flwyddyn gyfan. Helpu i ddenu a chadw'r myfyrwyr yma.<br><br>Pecyn Cefnogi Gofalwyr: Mae mynd i Brifysgol yn gallu bod yn heriol iawn i ofalwyr gan y gall cyfuno cyfrifoldebau allanol gydag astudio fod yn anodd. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn canfyddiadau o astudiaeth o ofalwyr sy'n fyfyrwyr gafodd ei gynnal gan yr NUS. Dangosodd y canlyniadau mai dim ond 36% o fyfyrwyr sy'n ofalwyr oedd yn teimlo eu bod yn gallu cydbwyso eu hymrwymiadau (megis gwaith, astudio a theulu/perthnasoedd) o gymharu â 53% o fyfyrwyr oedd heb gyfrifoldebau gofalu (NUS, 2013).<br><br>Myfyrwyr wedi Ymddieithrio: Mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd yn wynebu heriau penodol. Anaml y byddant yn derbyn cefnogaeth ffurfiol gymunedol ac nid ydynt wedi eu cydnabod eto fel grŵp penodol o fewn proses ymgeisio UCAS. Hyrwyddo cadw myfyrwyr drwy sicrhau bod myfyrwyr wedi ymddieithrio yn gallu cael mynediad i becyn cyllido llawn wrth iddynt wynebu heriau ychwanegol yn rhoi tystiolaeth o'u statws wrth wneud cais am gefnogaeth cyllido myfyrwyr. Hyrwyddo cadw myfyrwyr drwy gefnogi myfyrwyr sy'n profi chwalu'r teulu ac sy'n ymddieithrio yn ystod eu hastudiaethau. |
| **Grwpiau Myfyrwyr:** Rhai sy'n Gadael Gofal, Gofalwyr (ac eithrio rhieni oni bai eu bod yn gofalu am blentyn/plant ag anableddau neu anghenion meddygol eraill) a Myfyrwyr wedi Ymddieithrio. |
| **Targedau:**<br>Y nod cychwynnol yw adnabod cymaint o fyfyrwyr ag ystyriaethau ychwanegol ag y gallwn ni.<br><br>**Pecyn Cefnogi rhai sy'n Gadael Gofal:**<br>• Nifer y myfyrwyr a ddisgwylir yn 2018/19: 57, yn cynnwys myfyrwyr sy'n parhau. (Mae disgwyl bod 18 myfyriwr presennol yn graddio yn 2018/19).<br>• Nifer y rhai sy'n gadael gofal i'w cefnogi yn 2019/20: 45. Rhagwelwn y bydd gennym llai o ddechreuwyr newydd yn 19/20 a nifer o fyfyrwyr yn graddio ym Mlwyddyn Academaidd 2018/19.<br><br>**Cefnogaeth i Fyfyrwyr wedi Ymddieithrio:**<br>Nifer y Myfyrwyr wedi Ymddieithrio gafodd gefnogaeth yn 2016/17: 15 (mae'r ffigur hwn yn cynnwys 6 myfyriwr presennol sy'n derbyn cefnogaeth fydd yn graddio naill ai yn y flwyddyn academaidd 18-19 neu 19-20). Ffigur targed ar gyfer 2018-19: 17.<br><br>Nifer y Myfyrwyr wedi Ymddieithrio y rhagwelir fydd yn derbyn cefnogaeth yn 2019-29: 7. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth, fel y nodwyd uchod, ein bod yn amcangyfrif nifer is o ddechreuwyr newydd. Yn ogystal, rydym wedi cymryd i ystyriaeth y posibilrwydd y bydd rhai myfyrwyr wedi ymddieithrio yn cymodi gyda'u teuluoedd (mae dau achos o hyn wedi digwydd yn 2017/18). |

| |
|---|
| **Pecyn Cefnogi Ariannol wedi'i ddarparu gan y Brifysgol** i ddenu, cefnogi a chadw myfyrwyr, yn cynnwys rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol:<br>• **Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn adolygu ei Bwrsariaethau cysylltiedig ag incwm** i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel yn sgil newidiadau i'r darlun cyllido AU yng Nghymru. Yn 2019-20 bydd 'bwrsariaeth costau byw' o £500 ar gael i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn unig o gartrefi sydd ag incwm o dan £18,370.<br>• **Bwrsariaeth gadael gofal** o £1,000 y flwyddyn (ar ben unrhyw hawl am fwrsariaeth gysylltiedig ag incwm).<br>• **Cronfa Caledi Myfyrwyr gwerth £300,000** i helpu atal myfyrwyr rhag gadael oherwydd anawsterau ariannol (ac i helpu Myfyrwyr Anabl sy'n gwneud cais am brofion diagnostig cychwynnol cyn gwneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl).<br>• **Bwrsariaethau Symudedd** o £1,000 i helpu tuag at gost gweithio neu astudio dramor fel rhan o gwrs myfyriwr yn cynnwys £250 ychwanegol (hyd at gyfanswm o £1,500) i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel neu sy'n ofalwyr, yn rhai sy'n gadael gofal neu'n fyfyrwyr wedi ymddieithrio.<br>• **Ysgoloriaethau Rhagoriaeth a Theilyngdod** yn cael eu dyfarnu i fyfyrwyr waeth beth yw eu cefndir, yn seiliedig ar gyrhaeddiad academaidd blaenorol.<br>• **Cyngor a chefnogaeth** ar gael o swyddfa A**rian@BywydCampws** wyneb yn wyneb neu ar-lein. Gwasanaethau galw i mewn yn ogystal ag apwyntiadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ar gael am 18 awr yr wythnos (wedi eu rhannu'n gyfartal rhwng Campws Singleton a Champws y Bae). |
| **Wedi'i ddarparu gan:** Gwasanaethau Myfyrwyr |
| **Sail resymegol:** Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod cefnogaeth a chyngor ariannol, yn enwedig i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel neu o gefndiroedd difreintiedig, yn chwarae rhan wrth gefnogi myfyrwyr i aros mewn addysg uwch. |
| Pob myfyriwr yn cynnwys rhai o gartrefi incwm isel, Plant sy'n Derbyn Gofal, Myfyrwyr wedi Ymddieithrio, Myfyrwyr sy'n profi caledi ariannol a Myfyrwyr Anabl. |
| **Targedau:**<br>Yn seiliedig ar y dybiaeth mai un cyswllt am gefnogaeth sy'n cael ei wneud am bob myfyriwr ac ar ffigurau a ragwelir o waelodlin 2016/17, rhagwelwn y byddwn yn cefnogi'r canlynol yn 2019/20:<br>• 820 o fyfyrwyr drwy Gronfeydd Caledi (yn seiliedig ar y cynnydd a ragwelwn yn y boblogaeth myfyrwyr)<br>• 12,000 o fyfyrwyr yn cael eu cefnogi neu eu cynghori gan ein swyddfa Money@CampusLife (yn cynnwys ymholiadau gan ddarpar fyfyrwyr)<br>• Gweithio i sefydlu'r "grant costau byw" newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd |

**DILYNIANT:**

| |
|---|
| • **Cefnogaeth academaidd yn Gymraeg gyda'r Rhaglen Llwyddiant Academaidd**<br>• **Tystysgrif Cymraeg y Coleg Cymraeg** |
| **Wedi'i ddarparu gan:** Academi Hywel Teifi a'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd |
| **Sail resymegol:** Annog myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael er mwyn gwella eu cyfleoedd i lwyddo gyda'u hastudiaethau a'u cyfleoedd gwaith yn y dyfodol. Ymrwymiad i ddarparu profiadau a chefnogaeth academaidd |

gyfartal i fyfyrwyr p'un a ydynt yn astudio yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ymgysylltu gyda gwella profiad y myfyrwyr yn Abertawe a chyfrannu tuag at gwrdd â thargedau'r Brifysgol o ran niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Grŵp Myfyrwyr:** Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

**Targedau:**

- Cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio 5+ credyd yn Gymraeg ar gyfer 2019-20 (o 342 yn 2016-17 i 440 yn 2019/20) neu 40+ credyd (o 97 yn 2016-17 i 155 yn 2019/20).

**Rhaglen Llwyddiant Academaidd Cymraeg**

- Rydym yn parhau i weithio tuag at gefnogi'r nifer gynyddol o fyfyrwyr gyda'u sgiliau academaidd yn Gymraeg ond gan fod y nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn ddiweddar wedi bod yn isel, rydym yn rhagweld cynnydd arafach ar gyfer 19/20 nag a nodwyd y llynedd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Academi Hywel Teifi yn cydweithio gyda'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a chynyddu nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol. Rhagwelwn y byddwn yn cyrraedd 80 o ddefnyddwyr erbyn 19/20.

**Tystysgrif Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

- Parhau i weithio tuag at lwyddo i gael cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan i 50 erbyn 2019-20.
- Cynyddu cyfradd llwyddiant myfyrwyr i 90% gyda 60% yn cael Anrhydedd.
- Cynnydd yng nghyflawniad graddau ymysg y corff myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg
- Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n gofyn am ofal bugeiliol yn Gymraeg

**Cefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau astudio academaidd a dod yn ddysgwyr annibynnol**

- **Cwrs Pontio Ehangu Cyfranogiad**
  Rhaglen wythnos ar ymgyfarwyddo a sgiliau astudio i fyfyrwyr sydd wedi eu nodi fel rhai EC. Cynhelir hwn yr wythnos cyn Wythnos y Glas a bydd nifer o weithdai datblygu dysgwyr yn dilyn ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn academaidd.
- **Sgiliau ar gyfer Dysgu, Sgiliau ar gyfer Byw**
  Tri chwrs ar-lein yn cefnogi pontio i AU, ar gael i bob myfyriwr ar-lein. Mae'r rhain yn rhan o raglenni sgiliau mewn rhai colegau. Mae cyfieithiad Cymraeg o Gwrs 1, sy'n cyflwyno myfyrwyr i fyd addysg uwch, yn digwydd ar hyn o bryd a bydd ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cadarnhau ddechrau fis Medi, yn union cyn iddynt gychwyn.
- **Gweithdai grwpiau bach i fyfyrwyr â gwahaniaethau dysgu penodol (SpLDs).**
  Bydd gweithdai peilot yn cael eu cynnal yn ystod tymor 3 blwyddyn academaidd 2017/18. Bydd y rhaglen yn parhau i mewn i 2018/19, ac yn amodol ar werthuso, bydd y gweithdai'n cael eu datblygu a'u hymestyn ar gyfer 2019/20.
- **Gweithdai Mathemateg ac Ystadegau**

Mae gweithdai wedi cael eu datblygu yn seiliedig ar yr ymholiadau mwyaf cyffredin sy'n dod drwy'r gwasanaeth galw i mewn. Bydd y rhain yn cael eu cynnal yn 2017/18 er mwyn gwerthuso ac yn cael eu datblygu i'r flwyddyn academaidd 2018/19. Bydd y gweithdai'n cael eu datblygu a'u hymestyn ar gyfer 2019/20 i ddarparu cefnogaeth benodol wedi'u plannu yn y colegau academaidd.

**Wedi'i ddarparu gan:** Y Ganolfan Llwyddiant Academaidd (CAS)

**Sail resymegol:**

i. I roi cychwyn cadarn i fyfyrwyr ehangu cyfranogiad i gael mynediad i sgiliau hanfodol ar gyfer AU a chreu rhwydwaith gefnogi o staff a chyfoedion yn gynnar yn eu taith yn y brifysgol. Eu hysbysu o'r holl wasanaethau cefnogi sydd ar gael.

ii. Helpu myfyrwyr o bob cefndir i addasu i'w profiad academaidd newydd wrth iddynt gyrraedd y brifysgol. Mae'r cyrsiau'n rhyngweithiol ac yn darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch er mwyn cefnogi cynhwysiant.

iii. Mae 50% o'r myfyrwyr sy'n gymwys i gael cefnogaeth arbenigol un i un yn derbyn y cynnig. Mae trafodaethau gyda sefydliadau eraill yn awgrymu y gallai ychwanegu gweithdai gynyddu'r gyfradd defnyddwyr. Mae'n helpu i leihau teimladau o unigedd ymysg myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu.

iv. Mae gwerthusiadau un i un o Lwyddiant Mathemateg ac Ystadegau (MASS) yn dangos patrwm o ymholiadau cyffredin; mae gweithdai wedi eu hychwanegu i fynd i'r afael â hyn. Bydd yn helpu adeiladu hyder myfyrwyr mewn sgiliau mathemateg ac yn cefnogi dilyniant a chadw myfyrwyr.

**Grŵp Myfyrwyr:** Yn arbennig o berthnasol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol e.e. myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr o gefndiroedd cyfranogiad isel, myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae elfennau o'r uchod yn berthnasol i bob myfyriwr.

**Targedau:**

- Myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi paratoi'n well ar gyfer AU ac yn cael eu cefnogi drwy eu taith ddysgu.
- Cyrsiau Ar-lein wedi eu gwreiddio o fewn 4 coleg academaidd. Cwrs 1 yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynnydd o 25% yn nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r cyrsiau ar-lein i 4,500.
- 2 weithdy STAS bob tymor. Adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr. Cynnal gwerthusiad.
- 6 gweithdy Mathemateg/Ystadegau bob tymor. 70% o'r rhai sy'n mynychu yn sylwi ar gynnydd mewn hyder.

**Dilyniant:** sicrhau bod gan fyfyrwyr y **gefnogaeth academaidd a bugeiliol** i gynyddu o lefel i lefel.

- **Dadansoddi data dilyniant** i adnabod patrymau a thueddiadau i sicrhau nad yw myfyrwyr â nodweddion penodol yn perfformio'n waeth na gweddill y garfan o ganlyniad i'r nodweddion hynny.
- **Ffocws ar newidiadau i wella cyflawniad** grwpiau BAME penodol a gwrywod gwyn dosbarth gweithiol.
- Mae'r swm a'r math o asesiad dan ystyriaeth yn 2016-17 gyda golwg ar sicrhau bod yr asesiad ar gyfer rhaglen yn briodol yn nhermau swm, yn gynhwysol o ran dyluniad ac yn ddilys cyn belled ag sy'n ymarferol ar gyfer y pwnc.
- Bydd **Gwasanaeth pwrpasol Llesiant@BywydCampws** (y tu allan i'r Gwasanaethau Lles, Anabledd ac Arian presennol) yn goruchwylio hyfforddiant a safoni darpariaeth y gwasanaeth lles ar draws y Brifysgol. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn cynnwys gwelliant i'n gallu i ymateb i achos 'y tu allan i oriau'/critigol. Gall hyn fod yn arbennig o effeithiol i gefnogi myfyrwyr nad oes ganddynt deulu sefydlog neu effeithiol neu fathau eraill o gefnogaeth allanol.
- **Ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr rhan-amser yn Addysg Barhaus Oedolion, mae Swyddog Sgiliau Astudio a Chadw pwrpasol** a bydd aelodau o'r tîm datblygu cymunedol

| |
|---|
| yn gweithredu fel cydlynwyr lleoliadau a thiwtoriaid personol ar gyfer rhaglenni yn y gymuned a rhaglenni ar y campws. Darperir cefnogaeth un i un ac mewn grwpiau gyda Sgiliau Astudio ac Ysgrifennu Academaidd hefyd ar gyfer myfyrwyr aeddfed rhan-amser. |
| **Wedi'i ddarparu gan:** Academi Cynhwysiant a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe Gwybodaeth Gwasanaethau ac i Systemau, Gwasanaethau, Gwasanaethau Ansawdd ac i Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau. |
| **Sail resymegol:** Mae myfyrwyr sydd â rhai nodweddion ac amgylchiadau'n gwneud cynnydd llai llwyddiannus na gweddill y garfan. Mae angen deall y patrymau a'r nodweddion/amgylchiadau yn well o fewn poblogaeth amrywiol myfyrwyr Prifysgol Abertawe. Bydd y ddealltwriaeth well yn galluogi cymryd camau i liniaru'r gwahaniaeth mewn cynnydd er mwyn i bob myfyriwr gael cyfle cyfartal a darpariaeth gynhwysol. |
| **Grŵp Myfyrwyr:** Pob myfyriwr ond gyda ffocws penodol ar gyflawniad unigolion Du/Asiaidd/Lleiafrifol Ethnig (BAME) a gwrywod gwyn dosbarth gweithiol. |

**CADW:**

| **Cadw: cefnogi myfyrwyr i barhau i astudio a chwblhau eu rhaglenni astudio** |
|---|
| • **Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn adolygu ei Bwrsariaethau cysylltiedig ag incwm** i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel yn sgil newidiadau i'r darlun cyllido AU yng Nghymru. Yn 2019-20 bydd 'bwrsariaeth costau byw' o £500 ar gael i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn unig o gartrefi sydd ag incwm o dan £18,370.<br>• Yn 2017-18 cafodd y **fframwaith academaidd a bugeiliol** ei weithredu fel proses bontio gan SAILS er mwyn darparu cefnogaeth gynhwysol i bob myfyriwr. Mae'r fframwaith yn cael ei sefydlu a'i werthuso dros nifer o flynyddoedd hyd at 2020. Mae 3 prif elfen i'r fframwaith: yn gyntaf, Rhwydwaith Bywyd Myfyriwr ar gyfer cefnogaeth lles i fyfyrwyr sy'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth gan staff gwasanaethau proffesiynol cymwysedig yn y Colegau Academaidd; Llesiant@BywydCampws sy'n wasanaeth canolog; a'r MyUniHubs ar gampws y Parc a champws y Bae. Yn ail, bydd tiwtora personol yn cael ei ailgyfeirio at fentora academaidd gan staff academaidd a chaiff myfyrwyr eu cefnogi i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol dan gyfarwyddyd. Yn 2018/19 bydd gwaith yn dechrau ar ymwreiddio sgiliau astudio academaidd mewn rhaglenni astudio. Bydd hyn yn parhau am nifer o flynyddoedd ac yn wir i mewn i 2019/20.<br>• Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Lles yn gweithio mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn ISS i gynhyrchu a datblygu **gwell system reoli ar-lein i sicrhau bod newidiadau rhesymol** mewn perthynas â chefnogaeth academaidd sydd ei angen dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn cael eu cofnodi a'u gweithredu i gefnogi staff a myfyrwyr yn well.<br>• **Bydd y dadansoddiad o ddysgu yn parhau i gael ei ddatblygu** er mwyn gwella'r data sydd ar gael ynghylch ymgysylltiad y myfyrwyr gyda'u dysgu a'r addysgu, ar gyfer y staff a'r myfyrwyr. Yn 2016-17 cafodd system fonitro presenoldeb drwy ddefnyddio darllenydd cerdyn ei roi ar waith yn llwyddiannus yn yr holl fannau addysgu ar gampws y Bae, campws y Parc a champws Caerfyrddin. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl defnyddio data presenoldeb ar gyfer cefnogaeth fugeiliol drwy ganfod y myfyrwyr hynny sy'n ymgysylltu'n wael â'r addysgu sydd wedi'i amserlennu. Mae ymgysylltiad effeithiol y myfyriwr yn ganolog i brofiad y myfyriwr. Drwy gynnig cefnogaeth unigol yn gynnar ar gyfer problemau sy'n cael effaith negyddol ar ymgysylltiad, y bwriad yw gwella dysgu'r myfyrwyr. Yn 2017-18 mae'r pwyslais wedi bod ar sicrhau bod data asesu ar gael i fyfyrwyr a staff mewn ffordd amserol a hygyrch. Nid yw'r |

blaenoriaethau ar gyfer 2018-19 a 2019/20 wedi cael eu penderfynu eto ond maent yn debygol o gynnwys un golwg o ddata myfyrwyr i staff a myfyrwyr.

- **Gwell cefnogaeth i fyfyrwyr ag anableddau**, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau meddygol eraill gan gynnwys adnoddau a rhwydwaith cymuned ymarfer i staff, hyfforddiant staff <http://sails.swan.ac.uk/>, a gwell arweiniad <http://www.swansea.ac.uk/media/Guide%20on%20Extra%20Help%20and%20Support.pdf> i ddarpar fyfyrwyr. Mae'r maes gwaith hwn yn cynnwys Academi Cyflogadwyedd Abertawe a thîm lleoliadau'r Swyddfa Datblygu Rhyngwladol.
- Mae Colegau yn gwerthuso **eu darpariaeth sefydlu a phontio ar gyfer myfyrwyr** ac yn cael eu hannog i wella'u darpariaeth mewn partneriaeth gyda myfyrwyr, drwy offer a gweithdai. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros nifer o flynyddoedd.
- Mae pob Coleg academaidd yn cael ei gefnogi i ddarparu **mentora cymheiriaid gan fyfyrwyr** i fyfyrwyr gan ddefnyddio'r pecyn offer ar-lein a ddatblygwyd gan SAILS.
- Yn flynyddol, mewn cydweithrediad ag **Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe**, mae SAILS yn cynnig grantiau bychain hyd at gyfanswm o £3,000 i staff er mwyn gwella'u dysgu, eu haddysgu a'u hadnoddau cynhwysedd, eu harferion a'u prosesau er budd i'r myfyrwyr.
- **Ar gyfer myfyrwyr aeddfed rhan-amser yn yr adran Addysg Barhaus Oedolion o fewn Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, mae Swyddog Sgiliau Astudio a Chadw pwrpasol** fydd yn cynnig cefnogaeth drwy gyflwyno myfyrwyr i ofynion eu cynllun astudio a dod o hyd i ffyrdd i'w goresgyn. Darperir hyn i fyfyrwyr wyneb yn wyneb a hefyd drwy gyfrwng Llawlyfr STAR (Awgrymiadau Astudio i Sicrhau Canlyniadau). Ar ben hynny, bydd aelodau o'r tîm datblygu cymunedol yn gweithredu fel cydlynwyr lleoliadau a thiwtoriaid academaidd ar gyfer rhaglenni yn y gymuned a rhaglenni yn y campws.

**Wedi'i ddarparu gan:** Academi Cynhwysiant a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS), Gwasanaethau Myfyrwyr, Colegau Academaidd, Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

**Sail resymegol:** Mae addysgu, dysgu a chefnogaeth gynhwysol i fyfyrwyr yn flaenoriaeth strategol i Brifysgol Abertawe er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr, ar ôl ymrwymo i astudio, yn cael ei alluogi i gwblhau ei ddewis gymhwyster yn llwyddiannus.

**Grŵp Myfyrwyr:** Yr holl fyfyrwyr gan gynnwys myfyrwyr o deuluoedd incwm isel, ag anableddau (corfforol a dysgu), myfyrwyr aeddfed.

**Targedau:**
Gwelwch y targedau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn Atodiad Aii yn ymwneud â diffyg parhau (cadw).

**Cefnogaeth Iechyd meddwl a Lles - Mentrau a gweithgareddau sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles myfyrwyr**

**Cynllun ACTivate Your Life**
Mae ACTivate Your Life yn fenter gydweithredol rhwng Prifysgol Abertawe, y Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol yr Athro Neil Frude (a ddyluniodd y cwrs), a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg; mae wedi'i dylunio i gefnogi lles meddwl myfyrwyr. Mae ACTivate Your Life yn y broses o gael ei wneud yn rhan o raglenni sefydlu israddedigion i gefnogi lles meddwl myfyrwyr gyda'r nod o fod wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn 2019/20.

Mae'r cwrs yn seiliedig ar dechnegau ymwybyddiaeth ofalgar i helpu rheoli straen, diffyg hunanhyder, gorbryder ac iselder. Mae'r cwrs yn helpu i wella deallusrwydd emosiynol er mwyn i fyfyrwyr fod wedi eu harfogi'n well i ymdopi â straen arferol bywyd a gwaith academaidd.
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/page/47545

**Ymwreiddio'r cwrs Stress Control**
Cafodd y cwrs Stress Control ei ddylunio gan y Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol Jim White ac mae'n cael ei gyflwyno'n gynyddol i mewn i'r cwricwlwm. Mae Stress Control yn therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gorbryder, iselder, dicter, diffyg hunanhyder a hunan barch, panig, cysgu'n wael a chwythu plwc - mewn geiriau eraill 'straen', Mae Ymwybyddiaeth Ofalgar a Seicoleg Cadarnhaol yn sgiliau sy'n cael eu defnyddio i hybu lles.
https://stresscontrol.org/home

**Grwpiau Ymwybyddiaeth Ofalgar ar gyfer myfyrwyr**
Yn cynnig grwpiau ymwybyddiaeth ofalgar penodol i fyfyrwyr sy'n cael eu cyfeirio gan y Gwasanaeth Lles a'u nodi fel rhai fydd yn elwa o'r grŵp. Mae'n rhedeg bob tymor, unwaith yr wythnos ac yn cael ei arwain gan nyrs iechyd meddwl/athro ymwybyddiaeth ofalgar.

**Gwasanaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth**
Mae'r gwasanaeth yn cefnogi myfyrwyr â chyflyrau sbectrwm awtistiaeth neu syndrom Asperger ac mae wedi gweld cynnydd blynyddol yn nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ers 2016. Mae'r gwasanaeth yn dal i gynnig pecyn ymgyfarwyddo i fyfyrwyr i'w paratoi ar gyfer bywyd yn y Brifysgol. Mae gan y rhaglen ymgyfarwyddo hefyd opsiwn preswyl ar gyfer myfyrwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth neu Asbergers. Caiff y rhain eu cynnal yn yr haf er mwyn i ddarpar fyfyrwyr ddod yn gyfarwydd ag amgylchedd y Brifysgol.

**Rhaglen Adfer CAMPUS:**
Mae Prifysgol Abertawe'n ddarparwr rhaglen adfer CAMPUS, yn cynnig cefnogaeth a chyngor anffurfiol i fyfyrwyr sy'n ceisio cymorth am broblemau cyffuriau/alcohol. Mae'r dull CAMPUS yn un seciwlar ac yn seiliedig ar wyddoniaeth; mae'n defnyddio dulliau ysgogiadol, ymddygiadol a gwybyddol a bydd yn parhau i redeg yn 19/20.

**Wedi'i ddarparu gan:** Gwasanaethau Cefnogaeth Arbenigol

**Sail resymegol:** Yng ngoleuni'r cynnydd sylweddol yn y myfyrwyr ag angen cefnogaeth iechyd meddwl dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Brifysgol yn mabwysiadu agwedd mwy rhagweithiol i gefnogi myfyrwyr yn y ffordd orau. Mae hyn yn cynnwys mentrau cydweithredol i helpu myfyrwyr i ddatblygu cydnerthedd a strategaethau ymdopi ochr yn ochr â'r gefnogaeth 1:1 sydd ar gael.

**Grŵp Myfyrwyr:** Pob myfyriwr ond yn bennaf berthnasol i'r rhai sydd â nodweddion penodol o ran anabledd, ac sydd wedi eu datgelu, cyn cyrraedd y Brifysgol.

**Targedau:**

- Ymrweiddio ACTivate Your Life yn llawn fel rhan o'r rhaglen sefydlu israddedigion erbyn 19/20.

- Cynnig rhaglen dreigl o Reoli Straen drwy gydol y flwyddyn academaidd a pharhau i'w ymwreiddio yn y cwricwlwm i mewn i 19/20.
- Cynnig therapi byr sy'n ffocysu ar ddatrysiadau i fyfyrwyr i annog hunan ymwybyddiaeth, i ddatblygu cydnerthedd a gwella'r gallu i ffynnu yn yr amgylchedd academaidd.

**5) Gwella'r profiad o addysg uwch ymysg myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cynnwys gweithgareddau i hyrwyddo profiad rhyngwladol;**

| |
|---|
| **Dyfarniad Academi Hywel Teifi -** Dyfarniad sy'n cydnabod y gweithgareddau/cyfraniadau allgyrsiol sy'n cael eu gwneud gan fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i gymuned y Brifysgol, i'r gymuned leol ac ar y llwyfan cenedlaethol/rhyngwladol drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>**Ieithoedd i Bawb -** Cyfle i ddysgu/gwella sgiliau iaith newydd, yn cynnwys Cymraeg, fel rhan o gynllun gradd y myfyriwr. |
| **Wedi'i ddarparu gan:** Academi Hywel Teifi |
| **Sail resymegol:** Annog myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn gwella eu gobaith o lwyddiant gyda'u hastudiaethau a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Ymgysylltu â gwella profiad myfyrwyr yn Abertawe a chynyddu ymgysylltiad myfyrwyr gyda'r gymuned ehangach ac agor darpar lwybrau gyrfa. Amlygu i gyflogwyr potensial ysgogiad, gallu a brwdfrydedd myfyrwyr unigol wrth iddynt gystadlu am gyflogaeth. |
| **Grŵp Myfyrwyr:** Myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg |
| **Targedau:**<br>Cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio 5+ credyd yn Gymraeg (o 342 yn 16-17 i 440) a 40+ credyd (o 97 yn 16-17 i 155) ar gyfer 19-20. |

| |
|---|
| Mae'r **Tîm Ewch yn Fyd-eang** yn y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol yn gyfrifol am ganfod, datblygu a hyrwyddo amrywiaeth eang o **gyfleoedd rhyngwladol i fyfyrwyr** (astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor) sydd ar gael i bob myfyriwr. Mae'r tîm Ewch yn Fyd-eang yn ymroddedig i sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn elwa o brofiad rhyngwladol. Yn hyn o beth rydym yn:<br>• cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd, o raglenni pythefnos dros yr haf a rhaglenni byr i leoliadau astudio tramor am flwyddyn gyfan mewn amryw o wledydd, gan apelio at amrywiaeth eang o fyfyrwyr.<br>• **Darparu bwrsariaethau i bob myfyriwr sy'n cymryd rhan yn cynnwys bwrsariaeth ychwanegol Ehangu Mynediad i fyfyrwyr o gefndir incwm isel, gofalwyr, rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr wedi ymddieithrio er mwyn annog rhai yn y grwpiau yma i gymryd rhan.**<br>• Gweithio'n agos gyda'r swyddfa anabledd ym Mhrifysgol Abertawe a'n prifysgolion sy'n bartneriaid i sicrhau bod cefnogaeth ychwanegol addas yn cael ei roi i fyfyrwyr anabl sy'n cymryd rhan mewn Cyfleoedd Byd-eang. |
| **Wedi'i ddarparu gan:** Y Tîm Ewch yn Fyd-eang Swyddfa Datblygu Rhyngwladol |
| **Sail resymegol:** Mae cymryd rhan mewn un neu ragor o'r cyfleoedd Ewch yn Fyd-eang yn cael effaith arwyddocaol ar gyflogadwyedd myfyrwyr yn ogystal ag ychwanegu at ansawdd |

| |
|---|
| eu profiad fel myfyriwr. Mae data'n dangos bod 51% o fyfyrwyr sy'n cymryd cyfle symudedd yn meddu ar o leiaf un nodwedd heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n rhan o'r cynllun hwn. |
| **Grŵp Myfyrwyr:** Pob myfyriwr (yn cynnwys myfyrwyr o deuluoedd incwm isel, gofalwyr, rhai sy'n gadael gofal, myfyrwyr wedi ymddieithrio a myfyrwyr ag anableddau). |
| **Targedau:**<br>• Yn unol â strategaeth genedlaethol y DU ar gyfer symudedd allanol, mae'r Tîm Ewch yn Fyd-eang yn defnyddio'r canran o fyfyrwyr symudol o gohort graddio pob blwyddyn academaidd yn ogystal â'r nifer o fyfyrwyr symudol o'r cohort hwn. Bydd yr un broses yn cael ei defnyddio i sefydlu ystadegau gwaelodlin ar gyfer cyfranogi gan fyfyrwyr o bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17. Byddwn yn parhau i fonitro cyfanswm y myfyrwyr sy'n cymryd rhan gydag un neu ragor o nodweddion Ehangu Mynediad gyda'r nod o gadw cyfartaledd yn unol â chanran cyffredinol y brifysgol o fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Monitro effaith arian y fwrsariaeth uwch ar gyfer Ehangu Mynediad (cynnydd o £250 yn 2016-17 i £500 yn haf 2018) ar y nifer sy'n manteisio ar Gyfleoedd Rhyngwladol. |

**6) darparu gwybodaeth effeithiol i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol cyn ac yn ystod eu cyrsiau;**

Mae'r Brifysgol yn sicrhau ei bod yn darparu **gwybodaeth effeithiol i bob myfyriwr** yn cynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy amrywiaeth o wasanaethau sy'n targedu myfyrwyr cyn ac yn ystod eu cyrsiau:

- Gwybodaeth ar Dderbyniadau a Chyrsiau yn cael eu diweddaru ar-lein
- Llyfrynnau Rhaglenni a phrosbectysau (yn cynnwys cefnogaeth ariannol sydd ar gael yn y Brifysgol)
- Mewn ffeiriau a chonfensiynau AU UCAS
- Cyswllt uniongyrchol gyda myfyrwyr sy'n gwneud ymholiadau
- Dyddiau Agored ac ymweliadau ar ôl gwneud cais
- Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr yn siarad gyda blynyddoedd 12 ac 13 mewn ysgolion ar draws De Cymru ac yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig dan anfantais.
- Mae'r Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr yn edrych ar fenter cludiant i helpu i ehangu cyfranogiad yn y dyddiau agored sy'n cael eu trefnu gennym. Mae'r fenter yn bwriadu targedu ardaloedd gwledig a chyfranogiad isel yng Nghymru a chynnig cludiant wedi'i dalu yn ôl ac ymlaen i'n dyddiau agored ar bob campws. Bwriad y fenter hon yw helpu'r rhai fyddai fel arfer yn ei chael hi'n anodd teithio i ddyddiau agored y Brifysgol a hefyd i gael gwared ar rwystrau logistaidd rhag mynychu dydd agored AU a chael profiad o'n campysau. Byddwn wedi sefydlu'r fenter erbyn 19/20 gydag isafswm o 50 myfyriwr yn derbyn cefnogaeth am bob diwrnod agored gaiff ei gynnal
- Prosbectws Cymraeg i israddedigion, tudalennau gwe allweddol a chyhoeddiadau eraill yn cynnwys 'Pam Astudio yn Gymraeg?', *Arwain* (Taflen gan y Brifysgol sy'n cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn yn sôn am weithgareddau a hanesion Cymraeg Undeb y Myfyrwyr). Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio mewn cydweithrediad gyda'r Coleg Cymraeg ar amrywiaeth o weithgareddau recriwtio i ddenu myfyrwyr at ddarpariaeth Gymraeg, yn cynnwys drwy gyfrwng digwyddiadau

cenedlaethol allweddol megis y Gwyddonle yn Eisteddfod yr Urdd ac amrywiaeth o weithgareddau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn

- Mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn cefnogi trefniadau a Chyllid/gwybodaeth am gyllido ar gael ar-lein ac mewn sgyrsiau mewn dyddiau agored yn nodi'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu o gefndiroedd difreintiedig
- Pecynnau ymrestru yn amlinellu manylion llawn cyrsiau yn cynnwys rhaglenni ac amserlenni
- Mae gwybodaeth yn nodi'n union beth sy'n cael ei gynnwys am y ffioedd sy'n cael eu codi yn unol â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd er mwyn i fyfyrwyr allu gweld cyfanswm y ffioedd agregedig y bydd disgwyl iddynt ei dalu ar gael ar-lein ac o fewn gwybodaeth ar raglenni sy'n cael ei rhoi i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr sydd newydd ymrestru. Os oes unrhyw daliadau ychwanegol ar gyfer costau sy'n berthnasol i gyrsiau megis teithiau maes yna mae'r rhain hefyd ar gael er mwyn iddynt ddeall y cyfanswm costau sy'n ddisgwyliedig
- Sesiynau sgwrsio ar-lein cyn cyrraedd yn cael eu darparu gan Arian@BywydCampws fydd yn caniatáu i fyfyrwyr gael mynediad at gyngor arbenigol, gwybodaeth a chefnogaeth ar bopeth sy'n ymwneud ag arian myfyrwyr gyda golwg ar hyrwyddo cydraddoldeb mynediad drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor perthnasol
- I sicrhau bod myfyrwyr breiniol llawn-amser yn derbyn yr un lefelau a mynediad i wybodaeth, cefnogaeth ac ymgysylltiad. Mae'r Brifysgol yn cytuno ar gontractau gyda phob darparydd yn amlinellu cyfrifoldebau i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i fyfyrwyr mewn perthynas ag ymrestru, gwneud cais, lefelau ffioedd a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt (yn cynnwys pecynnau cefnogi ariannol), gan gydymffurfio â disgwyliadau'r Brifysgol i sicrhau ansawdd profiad dysgu'r myfyriwr.
- Mae sesiynau galw i mewn Arian@BywydCampws yn rhoi cyfle i fyfyrwyr dderbyn cyngor ariannol arbenigol, gan hybu cadw myfyrwyr drwy gyfrwng cyngor a chefnogaeth ymarferol.
- Sgyrsiau Medrau Ariannol a Digwyddiadau ymgysylltu i helpu myfyrwyr i baratoi, cynllunio a chadw eu harian yn ystod eu hastudiaethau
- Mae Fforwm Myfyrwyr Cangen Abertawe y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn rhoi llais i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac mae'n gyfrwng i rannu gwybodaeth rhwng myfyrwyr, y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg
- Bydd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cael cynnig tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg yn unol â'r safonau iaith Gymraeg sydd newydd eu sefydlu
- Bydd myfyrwyr yn cael cyswllt drwy gyfrwng llythyrau ac e-byst er mwyn cyfathrebu unrhyw newidiadau all ddigwydd dros gyfnod eu cyrsiau. Gall gwybodaeth hefyd gael ei roi ar y wefan ac ar borth unswydd ar-lein y Brifysgol. Byddwn yn dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru ynghylch costau ychwanegol i fyfyrwyr nad ydynt wedi eu rhagweld.
- Gall pob myfyriwr gael gafael ar wybodaeth gyflawn am eu cwrs ar-lein yng Nghanllaw Academaidd y Myfyrwyr
- Mae gan y Brifysgol hefyd MyUniHub sydd ar gael ar-lein ar y wefan MyUni <https://myuni.swansea.ac.uk/>i. Siop un stop ar gyfer ymholiadau myfyrwyr yw hon ac mae un ar bob campws lle gall myfyrwyr alw i mewn a gofyn cwestiynau a gofyn am gyngor gan gynnwys gwybodaeth gyffredinol.

- Tudalennau gwe Bywyd Campws yn benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio i ffwrdd o'r prif gampws ar raglenni breiniol
- Llawlyfrau penodol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau partner
- Gweithio gyda myfyrwyr sy'n llysgenhadon i helpu myfyrwyr newydd setlo ym Mhrifysgol Abertawe drwy wneud fideos a thrwy gymryd rhan mewn prosiectau marchnata eraill. Mae llysgenhadon myfyrwyr hefyd yn cynnig cyflwyniadau a sesiynau holi ac ateb ar fywyd myfyrwyr ar gyfer darpar fyfyrwyr, teuluoedd a chynghorwyr ysgolion/colegau yn ogystal ag ymweld ag ysgolion a cholegau i siarad am astudio yn ein sefydliad

**Sail resymegol:** I ddarparu ar gyfer pob myfyriwr yr wybodaeth angenrheidiol sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau er mwyn bod yn ymwybodol a deall sut y byddant yn cael mynediad i'r brifysgol, yn cael eu cyllido a'u cefnogi.

**Grŵp Myfyrwyr:** Pob myfyriwr yn cynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

**8) Cefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i fynd ymlaen i gyflogaeth neu astudio pellach a**

**DEILLIANNAU:**

Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o wasanaethau sy'n cefnogi myfyrwyr i **fynd ymlaen i waith ac astudio pellach**, yn enwedig Academi Cyflogadwyedd Abertawe, y Tîm Mynd yn Fyd-eang a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol wedi targedu cefnogaeth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig drwy'r mentrau canlynol:

- **Hybu Lleoliadau Gwaith Rhyngwladol** - creu SPINau Rhyngwladol (interniaethau sy'n cael eu talu gan Abertawe) sy'n cael eu rhedeg gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe a'r Swyddfa Datblygu Rhyngwladol ac yn cynnig ychwanegiad o £500 at y fwrsariaeth symudedd i **fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel**.
- Bydd **rhai sy'n gadael gofal** yn cael cynnig £1,000 dros gyfnod eu cwrs astudiaeth bellach (e.e. cwrs Meistr llawn amser neu ran-amser gan gynnwys PhD).
- **Academi Cyflogadwyedd Abertawe** Mae'r Academi yn cydlynu adnodd cyflogadwyedd cynhwysfawr sy'n cael ie ddarparu'n ganolog ac ar lefel Colegau sy'n galluogi myfyrwyr i gael deilliannau da ar ôl graddio. ` Mae hyn hefyd yn cynnwys goruchwylio Rhaglen Go Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith – bwriadwyd hon yn benodol i gynorthwyo myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol ar ffordd cyflogadwyedd lefel gradd, drwy ddarparu ymyriadau pwrpasol. Mae hyn yn ategu datblygiad Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA) wrth inni geisio gwella ymhellach ein dull o sicrhau 'deilliannau cadarnhaol i bawb' yng ngoleuni'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF).
- Rhoddir mynediad blaenoriaethol i **Fyfyrwyr sy'n Gadael Gofal a Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio** at gyngor gyrfaoedd ar ffurf cyflwyniad a chyfarfod wedi'i hwyluso os bydd angen.
- O ran darpar **fyfyrwyr aeddfed a myfyrwyr aeddfed rhan-amser** sy’n parhau eu haddysg gydag Addysg Barhaus Oedolion , mae gweithiwr arweiniad yn cynnig cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd ac astudiaeth bellach, naill ai ar y campws neu yn y gymuned.

- Anogir y myfyrwyr hyn hefyd i fynychu Gweithdai Cyflogadwyedd sy'n ymdrin ag ystod o themâu megis ysgrifennu CV, llwybrau gyrfa graddedigion, adnabod sgiliau trosglwyddadwy, gwerthu sgiliau i gyflogwyr graddedigion, dewisiadau astudio ôl-raddedig, rhwydwaith Alumni Prifysgol Abertawe, cymdeithasau a chlybiau, cyfleoedd i wirfoddoli a phrofiad gwaith. Cynhelir y sesiynau hyn yn flynyddol yn Llyfrgell Glowyr De Cymru ac mewn lleoliadau cymunedol.
- Datblygu Modiwl Busnes ac Entrepreneuriaeth i gael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr addysg barhaus, ran-amser yn 2018-19. Bydd hyn yn datblygu thema gref o gyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth ym mhob blwyddyn astudio ar gyfer y radd Ran Amser gan gefnogi datblygu ffordd o feddwl hyblyg a gwydn mewn graddedigion ar gyfer 2019-20.
- Modiwlau Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi eu hachredu, mewn cydweithrediad â'r Adran Barhaus Oedolion gyda Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, ar gyfer yr holl fyfyrwyr Israddedig ac Ôl-radd o fewn pynciau Iaith, TG a Chwnsela.

- Mae'r **Swyddfa Anabledd** wedi datblygu nifer o fentrau i gefnogi myfyrwyr anabl.
  - Mae'r swyddfa wedi cynhyrchu taflen arweiniad ynghylch datgelu anabledd i ddarpar gyflogwyr a sut y gall myfyrwyr ymagweddu at hyn.
  - Mae hefyd wedi sefydlu grŵp ar draws y Brifysgol i wella'r gefnogaeth bresennol i ddysgwyr ag anableddau sy'n dymuno mynd ar leoliad gwaith neu astudio/gweithio dramor. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynllun peilot gyda'r Ysgol Reolaeth i gynnwys gwybodaeth yn Llawlyfr Lleoliadau Myfyrwyr Israddedig ynghylch cefnogi myfyrwyr tra byddant yn manteisio ar gyfleoedd lleoliad gan eu cynghori ynghylch yr addasiadau y gellir eu gwneud ac ynghylch manteision datgelu.
- I **Fyfyrwyr Cyfrwng Cymraeg**, darparu modiwl Profiad Gwaith Cymraeg 20 credyd; cynyddu darpariaeth yn Gymraeg ar gynlluniau gradd sydd ag achrediad diwydiant/sector, e.e. nyrsio, bydwreigiaeth, meddygaeth, y cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus. Datblygu cynllun gradd cyfrwng Cymraeg peilot fydd yn cynnwys blwyddyn mewn cyfleoedd diwydiant a datblygu darpariaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar draws yr amrywiol bynciau a ddarperir yn Gymraeg.

**Wedi'i ddarparu gan:** Academi Cyflogadwyedd Abertawe, Academi Hywel Teifi, Swyddfa Anabledd, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Gwasanaethau Myfyrwyr.

**Sail resymegol:** Er bod y Brifysgol yn darparu gweithgareddau gyrfaoedd a chyflogadwyedd cynhwysol i'r holl fyfyrwyr, efallai y bydd rhai grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn profi rhwystrau ychwanegol wrth drosglwyddo i gyflogaeth neu astudiaeth bellach. Mae'r mentrau a ddisgrifir uchod yn anelu at leihau'r rhwystrau hyn a chynnig cyfleoedd datblygu er mwyn gwella dewisiadau'r unigolyn yn y dyfodol.

**Grwpiau Myfyrwyr:** Teuluoedd ar incwm isel, rhai sy'n gadael gofal, myfyrwyr wedi ymddieithrio, myfyrwyr aeddfed rhan-amser, myfyrwyr anabl, myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.

**Targedau:**

**Targedau DLHE:**

Graddedigion 2015-16 (adroddwyd 2017)

- Cyflogaeth ac Astudiaeth Bellach = 95.5%

- Cyflogaeth ar lefel gradd = 82.6%

Graddedigion 2017-18 (adroddir amdanynt yn 2020 dan Ddeilliannau Graddedigion)
- Cyflogaeth ac Astudiaeth Bellach = 96%
- Cyflogaeth ar lefel gradd = 85.5%

**Modiwl Profiad Gwaith Cyfrwng Cymraeg -** Parhau i archwilio'r cyfleoedd i adeiladu cyfleoedd profiad gwaith/interniaid/blwyddyn mewn diwydiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein cynlluniau gradd cyfrwng Cymraeg.

**Darpariaeth Gymraeg ar raddau galwedigaethol** - Parhau i gynnig 40 credyd o leiaf y flwyddyn ar bob cynllun.

**9) mesurau eraill i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, megis gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad (nodwch y mesurau hyn os gwelwch yn dda).**

Yn unol â'r amcanion corfforaethol a nodwyd yng **Nghynllun Cydraddoldeb Strategol (2016-20)** y Brifysgol, mae'r gweithgareddau canlynol wedi eu cynllunio ar gyfer 2019-20.

**Hil:**
- Mis Hanes Du yn ystod mis Hydref- cynyddu ymwybyddiaeth gan gynnwys y staff, myfyrwyr ac aelodau o'r gymuned gan edrych ar yr heriau allweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu o ran cydraddoldeb hiliol.
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth i nodi'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethau ar Sail Hil yn ystod mis Mawrth.
- Mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at ei chyflwyniad cyntaf ar gyfer y Dyfarniad Siarter Sefydliadol Cydraddoldeb Hiliol. Bydd y cais yn cael ei gyflwyno i'r Uned Her Cydraddoldeb ym mis Gorffennaf 2018 ac os yw'n llwyddiannus caiff ei weithredu yn 2019/20.

**Crefydd:**
- Digwyddiadau Coffáu'r Holocost ym mis Ionawr - cofio a chynorthwyo i sicrhau nad yw erchyllterau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd.
- Ramadan - mae'r brifysgol yn cefnogi staff a myfyrwyr yn ystod Ramadan drwy ddarparu cyfleusterau mewn pebyll mawr wedi eu comisiynu'n benodol.
- Eid - Wedi'i gydlynu drwy bwyllgor Rheoli'r Mosg i ddathlu diwrnod olaf tymor gŵyl addoli y Dhul Hijjah.
- Y Darlun Mawr - Ffocysu ar Grefydd, Ffydd, Diwylliant a Chymuned yn ystod Chwefror/Mawrth

**Rhyw:**
- Diwrnod Rhyngwladol y Merched - cynhelir dathliadau yn ystod mis Mawrth, gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan y brifysgol a cholegau mewnol. Wedi ei

chynnwys yn hyn mae Cyfres y Merched sy'n Ysbrydoli, yn proffilio merched â nodweddion gwarchodedig lluosog ar wefan y brifysgol yn ystod mis Mawrth.

- Diwrnod Ada Lovelace – mis Hydref, ar gyfer rhannu meddyliau ar yr agenda cydraddoldeb a thrafod sut mae modd cynyddu nifer y merched mewn safleoedd o bwys yn y brifysgol.
- Mae'r brifysgol yn ymrwymedig iawn i wella cynrychiolaeth y rhywiau o fewn pob un o'n saith coleg. Mae'r brifysgol wedi derbyn y wobr efydd sefydliadol, gyda'r Ysgol Feddygaeth a Choleg Astudiaethau Dynol ac Iechyd ill dau wedi derbyn y gwobrau Arian. Gwobrau efydd sydd gan Wyddoniaeth a Pheirianneg hefyd. Mae'r tri choleg arall i gyd yn gweithio tuag at gyflwyno'u ceisiadau am eu gwobrau eu hunain.

**LGBT+:**

- Pride Cymru – mae'r Brifysgol yn cynnal stondin bob mis Awst
- Bi-Fest Cymru – cynrychiolaeth i gefnogi codi ymwybyddiaeth
- Mis Hanes LGBT, yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau mewnol - Chwefror
- IDAHOBIT (Diwrnod rhyngwladol yn erbyn homoffobia, Trawsffobia a Biffobia) – cynhelir yn ystod mis Mai fel digwyddiad dangos undod â myfyrwyr a staff LGBT+.
- Diwrnod Amlygrwydd Bi - Cynhelir gan Rwydwaith Staff LGBT+ yn ystod mis Medi i groesawu blwyddyn academaidd newydd.
- Swansea Sparkle – Cynnal stondin yn y digwyddiad Trawsrywiol mwyaf yng Nghymru, bob mis Tachwedd.

**Anabledd:**

- Mae Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn ffocysu ar godi ymwybyddiaeth o'r rhai sy'n dioddef rhagfarn oherwydd eu hunaniaeth, e.e. anabledd, hunaniaeth rhyw, hil, ethnigrwydd, crefydd/ffydd/cred/ neu gyfeiriadedd rhywiol. Rhedir hon yn flynyddol mewn cydweithrediad ag Undeb Myfyrwyr Abertawe, bob mis Hydref.

**Y Ddarlith Flynyddol ar Gydraddoldeb**

- Parhau i gynnal Darlith Flynyddol ar Gydraddoldeb. Ar gyfer 2018 bydd y ddarlith yn cael ei chynnal ar 4 Ebrill - Rosaleen Moriarty Simmonds (Ymgyrchydd Thalidomide ar ei brwydr a'i chyflawniadau) gyda phob darlith flynyddol yn mynd i'r afael â gwahanol thema.

**Wedi'i ddarparu gan:** y Tîm Cydraddoldeb, Undeb y Myfyrwyr

**Sail resymegol:** Codi ymwybyddiaeth, hybu cydraddoldeb a sicrhau bod yr holl staff a myfyrwyr yn cael eu trin yn deg gydag urddas a pharch, gan ganiatáu iddynt fod y gorau y gallant fod mewn amgylchedd gofalgar a diogel.

**Targedau:** Mesurir yr effaith drwy holiaduron adborth (gan gynnwys atebion ansoddol) rhifau presenoldeb (mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, os yn berthnasol).

# Hybu mesurau addysg uwch er mwyn sicrhau:

**i. ymgysylltiad mwy effeithiol gyda chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol a gyda chymunedau yng Nghymru;**

| |
|---|
| **Gweithgareddau cydweithredu rhanbarthol strategol:**<br><br>• Cefnogi Memorandwm Dealltwriaeth gyda Dinas a Sir Abertawe, gan gynnwys partneriaeth gyda Dinas a Sir Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Gŵyr Abertawe i ddatblygu ymhellach **Dinas Dysg Abertawe** o fewn **Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) o Ddinasoedd Dysg**.<br>• **Tri chynnig InterReg** gydag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Dinas a Sir Abertawe ar gyfer llwybr treftadaeth yn ardal Copperopolis.<br>• Datblygu Partneriaeth Addysg Athrawon Cychwynnol **Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe** (YAPA) gydag ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Benfro a chonsortia rhanbarthol.<br>• Cefnogi gweithrediad **Rhaglen Sgiliau'r Fargen Ddinesig** fel cynrychiolydd AU ar y Bwrdd Partneriaeth Dysgu Sgiliau Rhanbarthol a CCAUC fydd yn datblygu llwybrau sgiliau i gyfrannu i adfywiad economaidd.<br>• Cefnogi **menter y Banc Doniau o fewn prosiect ARCH**.<br>• **Prosiect T**ŷ'r Gwrhyd - Menter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot, a sefydlwyd gydag arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r iaith Gymraeg o ran mentrau addysgol a chymunedol i ymroi i atal dirywiad y Gymraeg yng nghymoedd Abertawe a Chastell-nedd. Mae Tŷ'r Gwrhyd yn gweithio gydag ysgolion, busnesau a mentrau yn y gymuned i wneud gwahaniaeth yn lefel yr ymgysylltiad â'r iaith Gymraeg a chyfrannu i darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>• **Sefydlu'r Academi ar gyfer Datblygiad Proffesiynol** i gydlynu a hybu darpariaeth addysg a hyfforddiant datblygu proffesiynol parhaus i fusnesau yng Nghymru ac yn genedlaethol. Alinio darpariaeth addysg a hyfforddiant DPP y Brifysgol â gofynion sgiliau'r rhanbarth yn y dyfodol.<br>• Aelodau gweithredol o **Bartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, y De-orllewin a Chanolbarth Cymru (PDSR).**<br>• Bydd **Partneriaeth Sgiliau Prifysgol a Choleg (CUSP)** yn parhau i gryfhau partneriaethau a chydweithrediadau gyda Cholegau AB rhanbarthol a gyda diwydiant.<br>• Cefnogi datblygu a gweithredu prentisiaethau gradd yng Nghymru |
| **Wedi'i ddarparu gan:** Cydweithrediad Rhanbarthol Strategol, Academi Hywel Teifi, Uned Partneriaeth Academaidd |
| **Sail resymegol:** Dull partneriaeth i ganolbwyntio ar gynaladwyedd, arloesi ac entrepreneuriaeth yn darparu llwybrau clir, hyblyg i ddysgu o'r ysgol i ddatblygiad gyrfa, gan godi safonau mewn addysg a gyrru cynhyrchiant. Cyfrannu hefyd i ddatblygiad yr economi yng Nghymru drwy ddarparu hyfforddiant ac addysg lefel uchel sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr ac yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau a ganfuwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Bydd y gweithgareddau hyn hefyd yn gymorth i wella hygyrchedd i addysgu uwch, i amrywio sylfaen y myfyrwyr a sefydlu seilwaith ar draws y |

| |
|---|
| Brifysgol i gefnogi darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus cynaliadwy ar ôl i gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ddod i ben. |
| Targedau:<br>• Gwneud Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ESDGC) yn rhan annatod o Ddysgu Entrepreneuriaeth drwy addysg gynradd, uwchradd, AB ac AU yn y rhanbarth.<br>• Cynnal Cyfarfod Rhanbarthol UNESCO 2017 (Ewrop a Gogledd America) a chynrychioli Abertawe yn Nhrydedd Cynhadledd Ryngwladol Dinasoedd Dysg.<br>• 3 Chynnig InterReg - canlyniadau 2017.<br>• Sefydlu partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe a gwneud cais llwyddiannus am niferoedd TAR AGA.<br>• Sicrhau bod cynrychiolaeth AU ar y Bwrdd PDSR, i CCAUC ac mewn ymateb i Brosiect Sgiliau'r Fargen Ddinesig yn deg a diduedd, gan ganolbwyntio ar gyd-ddatblygu llwybrau sgiliau i gwrdd ag anghenion cyflogwyr rhanbarthol sydd â'r potensial i dyfu.<br>• Cefnogi ARCH/y Banc Doniau ac archwilio awydd cyflogwyr am fodel Banc Doniau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ehangach.<br>• Cynyddu niferoedd defnyddwyr rheolaidd gwasanaethau a chyfranogwyr yn nigwyddiadau Tŷ'r Gwrhyd gan gynyddu ymgysylltiad disgyblion o 4 ysgol i 8; Cynyddu 5 grŵp/elusen/busnes i 10 a sicrhau cynulleidfaoedd rhwng 30 a 50 ym mhob digwyddiad diwylliannol/academaidd ar gyfer y gymuned. Cynyddu niferoedd dysgwyr Cymraeg o 70 i 120 erbyn 19/20.<br>• Cynyddu nifer y cyrsiau DPP byrion o 15 i 30.<br>• Cynyddu nifer y dysgwyr proffesiynol cofrestredig i 200.<br>• Cyflwyno dau gwrs DPP drwy gyfrwng y Gymraeg mewn partneriaeth gydag Academi Hywel Teifi erbyn 19/20. |

**Ymgysylltiad Dinesig - Mentrau a gweithgareddau sy'n dangos ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth o fewn ein cymunedau agos a lleol o ran lles, arloesedd a throsglwyddo sgiliau a gwybodaeth.**

**Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe**

- Parhad o Ŵyl Wyddoniaeth Abertawe i mewn i'n blwyddyn canmlwyddiant 2020. Mae'r ŵyl yn arddangosfa flynyddol o ymchwil newydd cyffrous ac arloesol sy'n digwydd ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r ŵyl yn apelio at bobl o bob oed ac mae'n cynnig y cyfle i bobl fwynhau profiadau ymarferol o wyddoniaeth tra'n dysgu mwy am yr ymchwil sy'n cael ei chynnal yn y sefydliad. http://www.swansea.ac.uk/alumni/newsandevents/events/science-festival-2017/
- Denodd Gŵyl Wyddoniaeth 2017 9000 o ymwelwyr a bwriadwn dyfu mewn graddfa a maint yn flynyddol, gan arwain at ein blwyddyn canmlwyddiant yn 2020. Mae'r ŵyl yn harneisio cydweithfeydd lleol, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r fforwm ymgysylltiad cyhoeddus, timoedd marchnata ac ystadau yn y Brifysgol ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Marina Abertawe.
- Dangosodd ein data ymwelwyr yn 2017 bod 21% o'n mynychwyr yn dod o un o'r 25% ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru a bod 81% o ymwelwyr wedi dweud fod ganddynt "fwy o ddiddordeb" mewn gwyddoniaeth ar ôl mynychu'r digwyddiad.

**Oriel Science**

- Cafodd Oriel Science ei sefydlu fel canolfan wyddoniaeth pop-yp yn arddangos ymchwil STEMM Prifysgol Abertawe gydag arddangosfa thematig wyddonol yn seiliedig ar ymchwil wyddonol y Brifysgol ac wedi ei anelu at ddwy gynulleidfa darged: y cyhoedd a disgyblion ysgol. Cynhaliwyd ein harddangosfa gyntaf, 'Stori Amser', rhwng Medi 2016 a Mehefin 2017 gan ddenu 17,000 o ymwelwyr o blith y cyhoedd. Croesawodd Oriel Science ysgolion a chynhaliodd weithdai a cheisiodd ddatblygu llythrennedd gwyddonol ymwelwyr hŷn. Bwriad yr arddangosfa yw annog ymwelwyr iau i ddewis pynciau STEMM yn yr ysgol gan arwain at raddau STEMM yn y Brifysgol. Dangosodd dadansoddiad o godau post ein hymwelwyr eu bod yn cyd-fynd yn union â phroffil y gymuned yn Abertawe yn seiliedig ar y dangosydd gymdeithasol-economaidd "Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru". Roedd demograffeg ein hymwelwyr yn gytbwys o ran rhyw ac oedran hefyd.

**Discovery**

- Parhau i ddatblygu'r prosiect Discovery i mewn i 19/20. Mae Discovery yn elusen sy'n cael ei arwain gan Fyfyrwyr ac yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr i helpu i gyfoethogi bywydau pobl yn Abertawe er mwyn gwireddu eu potensial fel unigolion wedi eu grymuso ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau. Mae gweithgareddau'r prosiect yn y gymuned, dan arweiniad myfyrwyr, wedi helpu i ddatblygu dealltwriaeth a chydraddoldeb rhwng bob ochr yn ogystal â datblygu sgiliau bywyd a chyflogadwyedd gwerthfawr ymysg y myfyrwyr.
- Mae Discovery wedi partneru gyda'r gwasanaeth Lles yn 17/18 er mwyn darparu cynllun bydi i fyfyrwyr Awtistig ac mae'n disgwyl gwneud yr un peth y flwyddyn nesaf. Ystyr hyn oedd bod gwirfoddolwyr o fyfyrwyr yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i ddarparu cefnogaeth cyfeirio ar gyfer myfyrwyr Awtistig oedd yn cychwyn yn y Brifysgol. Mae Discovery hefyd yn darparu cefnogaeth ddwysi fyfyrwyr ag anghenion ychwanegol i'w galluogi i wirfoddoli ochr yn ochr â'u cyfoedion.
- Mae Discovery'n darparu amrywiaeth o raglenni gwirfoddoli yn cefnogi pob rhan o'r gymuned neu i wella'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys prosiectau lle mae myfyrwyr yn rhyngweithio gyda phlant o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol; rhan o bwrpas y prosiectau hyn yw ehangu gorwelion y plant hynny a'u cyflwyno i'r syniad o Brifysgol fel rhywbeth y gallent ymgyraedd ag ef.
- Yn rhyngwladol, mae Discovery wedi gweithio gyda'r Swyddfa Datblygu Rhyngwladol i ddarparu 3 lle gyda bwrsariaeth i fyfyrwyr incwm isel i gymryd rhan yn ein rhaglen haf flynyddol yn Zambia.

**Y Fargen Ddinesig**

- Cafodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ei llofnodi'n ffurfiol yn 2017 ac mae wedi creu'r sylfaen i Brifysgol Abertawe ddatblygu ac ymgysylltu â nifer o brosiectau trawsffurfiol ar draws rhanbarth De Cymru.
- Mae'r Fargen Ddinesig yn cwmpasu 11 prosiect ar draws 4 thema allweddol sef Cyflymiad Economaidd, Gwyddorau Byw a Lles, Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar a bydd gwaith yn parhau ar y cydweithrediad yn 2019/20. Bydd Isadeiledd Digidol gwell, rhwydweithiau diwifr y genhedlaeth nesaf a datblygu sgiliau a doniau'r gweithlu yn sylfaen i bob un. Mae disgwyl i'r Fargen Ddinesig ddarparu cynnydd parhaol o £1.8 biliwn yng Ngwerth Ychwanegol Gros Rhanbarth Dinas Bae Abertawe a bydd yn cynhyrchu

bron i 10,000 o swyddi newydd ac yn rhoi sicrwydd i tua 8,000 o swyddi presennol dros y 15 mlynedd nesaf.

**S4 - menter Gwyddoniaeth i Ysgolion Abertawe**

- Parhad o fentrau S4, sy'n cael eu cyllido'n allanol, a'u gyrru gan gynhwysiant, yn darparu 'dyddiau blasu', gweithdai, ysgolion haf preswyl a dibreswyl i blant ysgol rhwng 7 ac 17 oed. Mae "ymyriadau" S4 yn cael eu gyrru gan 'gynhwysiant' ac yn trafod pynciau biowyddoniaeth, gwyddor gyfrifiadurol, daearyddiaeth a geowyddoniaeth, mathemateg a ffiseg. Mae S4 hefyd yn cynnig 'ymyriadau pontio' i blant Blwyddyn 6 sy'n pontio i Flwyddyn 7.
- Mae rhaglenni S4 yn dilyn methodoleg cyfarwydd estyn allan STEM, gan ddefnyddio gweithgareddau ymarferol ymgysylltu â gwyddoniaeth i estyn allan at ddemograffeg cyfranogiad STEM isel gyda'r nod cyffredinol o wella'r niferoedd a chyflawniadau STEM drwy gryfhau cyfalaf gwyddoniaeth mewn demograffeg cyfranogiad isel. Mae'r Cynllun wedi rhyngweithio â dros 4,000 o ddisgyblion rhwng 2012 a 2016.

**Wedi'i ddarparu gan:** Y Brifysgol

**Sail resymegol:**

- Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i sicrhau ei bod yn ymgysylltu â'r gymuned leol, ysgolion, y trydydd sector, cwmnïau lleol, partneriaid diwydiannol a phartneriaethau masnachol i hyrwyddo twf a datblygiad economaidd o fewn y cymunedau agos a'r cymunedau ehangach y mae'n eu gwasanaethu.

**Grŵp Myfyrwyr:** Pob myfyriwr a chymunedau ehangach De Orllewin Cymru.

**Targedau:**

- Sefydlu lleoliad parhaol i Oriel Science erbyn 2019/20 a chynyddu rhif yr ymwelwyr i 30,000 y flwyddyn.
- Erbyn 2019/20 byddwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i Ŵyl Wyddoniaeth Abertawe i 12,000, cynnydd o'r 9,000 a ddaeth yn 2017.
- Erbyn 2019/2020 bydd y fenter Discovery yn cynyddu ei chyrhaeddiad ac yn sefydlu presenoldeb yng Nghampws y Bae. Bydd hyn yn helpu i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n ymgysylltu â'r fenter ac er mwyn cefnogi hyn byddwn hefyd yn cynyddu'r nifer o gyfleoedd cymdeithasol a gweithgareddau ar gyfer gwirfoddolwyr.

**ii. buddsoddiadau mewn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan gyfeirio at ansawdd profiad myfyrwyr;**

**Gwelliannau yn Ansawdd Addysgu:**

- Datblygu Addysgu ar draws sbectrwm y staff/coleg gan gynnwys cynhadledd Dysgu ac Addysgu, seminarau (gwella Addysgu) a rhaglen o weithdai (sgiliau newydd/technoleg).
- Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg Sefydliadol - cefnogaeth a datblygiad.
- Cydnabod Athrawon – Llwybrau Achrediad yr Academi Addysg Uwch (AAU), llwybr ar gyfer yr holl athrawon, targed = 80% o'r holl staff addysgu, gradd 7 ac uwch erbyn 2020 (35% ar hyn o bryd, 50% erbyn 17-18, 65% yn 18-19).
- TAR - datblygiad addysgeg ar gyfer athrawon newydd.

| |
|---|
| • Agenda DPP newydd - TAR ar gael i bawb, arsylwi Drws Agored ar athrawon, datblygiadau Technolegol. |
| **Wedi'i ddarparu gan:** Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe |
| **Sail resymegol:**<br>• Ymdrech i wella addysgu i safon ardderchog wedi'i alinio â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu<br>• Ymroi i wella profiad y myfyriwr yn Abertawe drwy addysgu rhagorol<br>• Ymrwymiad i gydraddoldeb Addysgu ac Ymchwil yn ein llwybr tuag i fyny - cefnogaeth, adnoddau a datblygiad |
| **Targedau:**<br>• Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (NSS) ar Ansawdd Addysgu - Cynyddu i 87% yn 18-19 ac i 88% (y chwartel uchaf) erbyn 2019-20. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar ein ffigur o gyflawni 86% yn 2107.<br>• Targed Achrediad yr Academi Addysg Uwch (AAU) = 80% o'r holl staff addysgu, gradd 7 ac uwch erbyn 2020 (35% ar hyn o bryd, 50% erbyn 17-18, 65% erbyn 18-19). |

**Mentrau Gwella Myfyrwyr:**

- **Cyd-greu (staff a myfyrwyr) darparu dysgu ffurfiannol yn ddigidol.**
  Yn 2017-18 rydym yn rhedeg dau beilot lle mae myfyrwyr yn defnyddio dyddiadur adfyfyrio digidol lle maent yn cofnodi eu holl adborth ar asesiadau. Mae'r myfyrwyr yn defnyddio'r dyddiadur yn eu sesiynau gyda'r mentor academaidd i drafod patrymau yn eu hadborth, i weithio drwy ffyrdd o ddefnyddio'r adborth i wella gwaith yn y dyfodol, sy'n arwain at gynyddu hyder a lefelau cyflawniad. Mae gwerthusiad hanner ffordd gan fyfyrwyr a staff wedi bod yn gadarnhaol iawn a byddwn yn cynhyrchu adroddiad gwerthuso ar y diwedd i benderfynu a fyddai ei gyflwyno'n llawn yn fanteisiol i bob myfyriwr ac yn ddichonadwy o safbwynt adnoddau. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y broses o gyflwyno'r cynllun a'i sefydlu yn digwydd yn ystod blynyddoedd academaidd 18-19 ac 19-20.

- **Datblygu symposia israddedig adrannol a rolau llysgenhadon dysgu. Bydd hyn yn gwella myfyrwyr fel ymchwilwyr mewn gweithgaredd ysgolheigaidd ân ogystal â hyrwyddo dysgu a diogelwch traws-gyfnodau.**
  Yn 2017-18 rydym yn cynnal peilotiaid o fewn tri Choleg a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso. Mae Llysgenhadon Dysgu wedi cael eu creu fel rolau gwirfoddoli a byddant yn chwarae rhan allweddol yn datblygu symposia israddedigion. Bydd gwerthuso a sefydlu, os yn llwyddiannus, yn digwydd yn ystod blynyddoedd academaidd 18-19 ac 19-20.

- **Gwella a sefydlu cymdeithasau academaidd ymhellach.**
  Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i gynhyrchu Cwestiynau Cyffredin, siart Llywodraethu a fideo arfer gorau ar gyfer cymdeithasau academaidd; mae'r rhain ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Mae rolau Pencampwr Cymdeithasau Academaidd wedi cael eu creu o fewn pob Coleg; aelod o staff academaidd sy'n bwynt cyswllt i fyfyrwyr sydd ag ymholiadau ar Gymdeithasau Academaidd.

- **Datblygu'r diwylliant adborth i hybu 'cau'r cylch' ar lefelau amrywiol drwy 'Gyda'n Gilydd fe wnaethom Newid''.**
  Mae negeseuon 'Gyda'n Gilydd fe wnaethom Newid' bellach wedi eu cynnwys ar wahanol lefelau ledled y Brifysgol, yn cynnwys ar y tudalennau gwe MyUniHub, ar bwyllgorau myfyrwyr-staff Colegau a byddant yn cael eu cynnwys yn y catalog modiwlau a'r llawlyfrau rhaglenni yn y dyfodol.

- **Cyfnewid Myfyrwyr**
  Bydd myfyrwyr yn dal i gael y cyfle i fynd ar daith gyfnewid wythnos o hyd i Brifysgol arall i gael profiad o sut mae sefydliad arall yn gweithredu. Fel hyn, gall y myfyriwr weithredu fel cyfrwng newid, wrth ddod â syniadau yn ôl i wella profiad y myfyriwr. Cynhaliwyd peilot yn llwyddiannus yn 17/18 gyda myfyriwr o Brifysgol Abertawe yn ymweld â Phrifysgol Newcastle. http://www.raise-network.com/picnic
  Mae nifer y Sefydliadau Addysg Uwch o fewn y consortiwm yn tyfu a bydd hyn yn darparu rhagor o gyfleoedd i'n myfyrwyr ymweld â SAUau eraill ar draws y DU yn y dyfodol gan ddod yn ôl gydag amrywiaeth o syniadau i wella eu profiad ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd myfyrwyr hefyd yn ymweld â ni ar ymweliadau cyfnewid o SAUau eraill; bydd hyn yn fanteisiol i'r holl sefydliadau wrth rannu arfer gorau.

**Wedi'i ddarparu gan:** Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol

**Sail resymegol:** Byddwn yn parhau i wella profiad y myfyriwr ym mhob grŵp ym Mhrifysgol Abertawe drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r myfyrwyr. Mae'r ddwy thema eleni (Cyfranogiad Myfyrwyr mewn Dysgu a Grymuso Myfyrwyr ar gyfer Dysgu) yn anelu at wneud hyn drwy:

- Wella'r diwylliant digidol mewn dysgu ac addysgu ymhlith staff a myfyrwyr.
- Gwella a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio llwyddiannus ac ystyrlon rhwng myfyrwyr a'i gilydd.
- Adeiladu diwylliant a chymuned ymarfer ymhlith staff a myfyrwyr.
- Grymuso llais y myfyriwr a grymuso'r staff a'r myfyrwyr drwy ddiwylliant o gyd-greu.

**Targedau:**

- Cynyddu nifer y cymdeithasau academaidd - 44 ym mis Mai 2017 i 45-50 erbyn 2020.
- Os bydd y cynlluniau peilot perthnasol yn llwyddiannus, byddwn yn gweithio tuag at sefydlu dyddiaduron adlewyrchol, symposia israddedigion adrannol a rolau llysgenhadon dysgu erbyn 19/20.

**iii. gweithgareddau sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru**

**Cyfleoedd Symudedd** Mae'r Tîm Ewch yn Fyd-eang yn y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol yn gyfrifol am ganfod, datblygu a hyrwyddo amrywiaeth eang o gyfleoedd rhyngwladol (astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor) sydd ar gael i bob myfyriwr.

**Datblygiad athrawon yn cael ei gydlynu gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT)** - Cysylltu theori ac ymarfer drwy brofiad yn y gweithle, addysgu cymhwysol ac asesiad

integredig. Hefyd ymestyn ystod yr amrediad asesu i gynnwys asesiad dilys, yn gysylltiedig â chyflogadwyedd a pherfformiad yn y gweithle.

**Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA):**

**Gweithredu Map un dudalen, clir, 'Fy Nhaith Gyrfa', sy'n berthnasol i fyfyrwyr ar unrhyw lefel, yn unrhyw ddisgyblaeth.** Mae'r map hwn yn sail i'r holl weithgaredd cyflogadwyedd ar draws y Brifysgol ac yn rhoi neges gyson a chlir i fyfyrwyr gan eu cynorthwyo i ymgysylltu â chyflogadwyedd, drwy waith gan wasanaeth canolog a darpariaeth gan Golegau sy'n cael ei gefnogi. Mae'r mapiau yn galluogi myfyrwyr i weld eu cynnydd drwy'r camau ar y map ar eu cyflymder eu hunain, gydag arweiniad. Mae'r map hefyd yn cefnogi staff ar draws y Brifysgol i hyrwyddo datblygiad sgiliau a phrofiadau'r myfyriwr ac mae canllaw penodol i staff wedi ei ddatblygu ynghyd â gwefan newydd o adnoddau i staff.

Bydd cefnogaeth cyflogadwyedd o 2018/19 ymlaen yn cael ei gryfhau ymhellach drwy gyflwyno **"Cofrestru Gyrfa"** adeg cofrestru/ail-gofrestru ar gyfer pob myfyriwr (i gofnodi data effeithiol ar barodrwydd a chynnydd tuag at yrfa ac i gynorthwyo i fireinio darpariaeth cyflogadwyedd drwy'r cwricwlwm) a datblygu **Gwobr Cyflogadwyedd Abertawe** i gynyddu'r cyfleoedd i bob myfyriwr elwa. (mae'r Wobr yn cynorthwyo myfyrwyr i archwilio pwy ydynt ac i ennill profiad a datblygu sgiliau i'w gwneud yn fwy parod wrth iddynt symud ymlaen tuag at gael gwaith ar lefel gradd ac mae ar ei mwyaf effeithiol pan gaiff ei sefydlu fel rhan o ddarpariaeth Coleg).

**Parth Cyflogaeth** - Proses wedi ei brandio ar gyfer ymgysylltiad â chyflogwyr i hwyluso twf mewn lleoliadau i fyfyrwyr a graddedigion, swyddi i raddedigion a swyddi rhan-amser. Mae hefyd yn cynnig mecanwaith all ehangu'n fwy i hybu a darparu lleoliadau a ariennir yn fwy effeithiol ar gyfer myfyrwyr a graddedigion mewn sefydliadau yn y DU, yn enwedig sefydliadau yng Nghymru. Gall y cwmnïau sy'n cynnig lleoliadau amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond mae amrywiaeth eang bob amser o ddiwydiannau a swyddi - o fentrau bychain a chanolig lleol ac elusennau i gorfforaethau rhyngwladol enfawr.
**Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch** - mae'n cofnodi cyflawniad myfyriwr mewn addysg uwch ac yn rhoi gwybodaeth fanylach am ddysgu'r myfyriwr, ei lwyddiant a'r sgiliau y mae wedi eu meistroli na'r system draddodiadol o ddosbarthiadau gradd. Gall myfyrwyr edrych arnynt tra byddant yn astudio neu ar ôl graddio a gall eu cynorthwyo i ddangos i gyflogwyr fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu penodi.

**Wedi'i ddarparu gan:** Tîm Mynd yn Fyd-eang, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol, ACA, Uned Partneriaethau Academaidd

**Sail resymegol:** Mae'r holl fentrau a restrwyd uchod wedi eu cynllunio i hyrwyddo profiad ehangach i fyfyrwyr, sydd hefyd yn ffocysu ar yr wybodaeth a'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn recriwtiaid newydd, gan alluogi myfyrwyr i gadw i fyny a lle bo modd gael mantais gystadleuol fydd yn gwella eu cyflogadwyedd.

**Targedau:**

- **Cyfleoedd Symudedd:** Targedu cyfanswm o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan sef 570 ar gyfer 2019-20 (500 yn 2016-17) a datblygu strategaethau yn seiliedig ar ganran y cohort o israddedigion sy'n graddio yn unol â strategaeth genedlaethol y DU ar gyfer symudedd allanol.

- **Parth a Lleoliadau Cyflogaeth:**
  - 2015-16: Cyflawni 546
  - 2016-17: Cyflawni 741 (targed 573)
  - 2017-18: Targed 800
  - 2018-19: Targed 1000
  - **2019/20: targed 1250**

- **Gwobr ACA:** nifer y myfyrwyr yn cofrestru ac yn cwblhau Gwobr ACA:
  - **2015-16 - Cofrestru:** 1,900: Cwblhau: 993 (mewn gwirionedd)
  - **2016-17 - Cofrestru:** 2,150: Cwblhau: 882 (mewn gwirionedd)
  - **2017-18 - Cofrestru:** 2,200: Cwblhau: 1,200
  - **2018-19 - Cofrestru:** 2,500: Cwblhau: 1,500
  - **2019-20-** Rhagwelir y bydd y Wobr yn cael ei hail-becynnu, gan sicrhau bod y prif elfennau'n gallu darparu ar gyfer pob myfyriwr, drwy gyfrwng y 'deilliannau dysgu cyflogadwyedd'. Bydd pob un o'n myfyrwyr felly'n gallu archwilio pwy ydyn nhw ac ennill profiad a datblygu sgiliau i'w harfogi'n well wrth iddynt symud tuag at sicrhau cyflogaeth ar lefel graddedigion. Bydd y marciau gaiff eu hennill a'r profiadau sy'n dilyn yn dal i ymddangos ar Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR) myfyriwr.

- **Targedau DLHE:**
  Graddedigion 2015-16 (adroddwyd 2017)
  - Cyflogaeth ac Astudiaeth Bellach = 95.5%
  - Cyflogaeth ar lefel gradd = 82.6%

  Graddedigion 2017-18 (adroddir ar hyn yn 2020 dan Ddeilliannau Graddedigion)
  - Cyflogaeth ac Astudiaeth Bellach = 96%
  - Cyflogaeth ar lefel gradd = 85.5%

**iv. gweithgareddau sy'n hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol;**

**Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i hybu Prifysgol Abertawe ac Addysg Uwch Cymru'n rhyngwladol.** Y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol sy'n gyfrifol am hybu Prifysgol Abertawe dramor; recriwtio myfyrwyr rhyngwladol o safon uchel, canfod cyfleoedd tramor i fyfyrwyr Abertawe a sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau AU rhyngwladol, cyrff ysgoloriaethau, sefydliadau llywodraethol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu partneriaethau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr mewn perthynas â gweithgareddau rhyngwladoli. Mae llwyddiant hyn i'w weld yn y niferoedd o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dewis astudio yn Abertawe. Rydym hefyd yn cynnal a chadw rhwydwaith ardderchog o gyn-fyfyrwyr gydag eiriolwyr o blaid Abertawe dros y byd i gyd.

Mae'r Brifysgol hefyd yn ymwneud â nifer o **bartneriaethau strategol lefel uchel**, er enghraifft, gyda phrifysgolion yn Texas a Grenoble. Mae'r partneriaethau hyn yn eang ac yn

ddwfn, yn ymwneud ag ymchwil ar y cyd, addysgu a gweithgareddau myfyrwyr ar draws ystod eang o feysydd academaidd.

Ar ben hynny, mae'r Brifysgol yn gwneud y canlynol:

- Gweithio i gynyddu cofrestriadau myfyrwyr rhyngwladol ymhellach
